# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Adroddiad etifeddiaeth
2007 i 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

www.cynulliadcymru.org
gwybodaeth@cymru.gov.uk
archebu@cymru.gov.uk
T 0845 010 5500

Cymerwch ran ar Facebook, YouTube, Twitter a Flickr.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cynnwys


01—Rhagair 06

02—Strategaeth a threfniadaeth 08

03—Cerrig milltir ac uchafbwyntiau 13

04—Nodau strategol

**Hyrwyddo datganoli ac annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses** 25

**Dangos undod ac arweiniad ac ymateb yn feiddgar i newidiadau cyfansoddiadol** 29

**Dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da** 33

**Gweithio'n gynaliadwy** 36

**Gofalu bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, a gaiff ei ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol** 38

05—Gwasanaethu Aelodau'r Cynulliad 40


AGORWYD GAN EI MAWR
OPENED BY HER MAJESTY



# Rhagair

Er mwyn helpu i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, mae'r adroddiad etifeddiaeth hwn yn adolygu gwaith Comisiwn y Cynulliad dros y pedair blynedd diwethaf.

Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 wedi creu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn wreiddiol fel corff corfforaethol a chanddo gyfrifoldeb dros arfer swyddogaethau seneddol a llywodraethol. Gan ei fod yn gorff corfforaethol, roedd yn dal i fodoli, yn gyfreithiol, hyd yn oed yn ystod ymgyrch etholiad—ni châi'r Cynulliad ei ddiddymu ac roedd Aelodau'n dal eu swyddi hyd at ddyddiad yr etholiad.

Drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf") gwahanwyd y ddwy rôl (seneddol a llywodraethol) yn ffurfiol a chrëwyd endidau cyfreithiol ar wahân i'w cyflawni: Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cymru) i arfer swyddogaethau llywodraethol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i arfer swyddogaethau seneddol, yn cynnwys gwneud deddfau a chraffu ar waith Llywodraeth Cymru.

Nid yw'r Cynulliad fel y mae wedi'i ailgyfansoddi'n gorff corfforaethol ond yn hytrach yn gymdeithasiad anghorfforedig o 60 o Aelodau a gaiff ei ddiddymu ychydig o wythnosau cyn pob etholiad Cynulliad a'i ailgynnull ar ôl dychwelyd yr Aelodau sydd newydd eu hethol. Felly nid yw'r Cynulliad yn gorff parhaol, di-dor ac, oherwydd hynny, nid oes ganddo'r gallu (er enghraifft) i wneud contractau hirdymor neu fod yn berchen ar eiddo. Felly, yn Neddf 2006, crëwyd y Comisiwn yn endid cyfreithiol parhaol sy'n gallu gwneud y contractau hirdymor, penodi'r staff a bod yn berchen ar yr eiddo sy'n angenrheidiol er mwyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru arfer ei swyddogaethau.

**Rôl y Comisiwn**

Dyletswydd y Comisiwn o dan y Ddeddf yw darparu'r "eiddo, y staff a'r gwasanaethau sy'n angenrheidiol at ddibenion y Cynulliad". Yn ymarferol, ystyr hyn yw mai cyfrifoldeb y Comisiwn yw:

- cael, dal a chael gwared ar unrhyw eiddo ar ran y Cynulliad;
- gwneud trefniadau i dalu Aelodau a darparu eu pensiynau a'u lwfansau ac i gyflogi staff y Cynulliad; a,
- gweithredu mewn modd priodol ac angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaethau sy'n ofynnol i'r Cynulliad wneud ei waith.

Mae Atodlen 2 i'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i'r Comisiwn hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r system etholiadol bresennol ar gyfer y Cynulliad neu un arfaethedig ac yn galluogi'r Comisiwn i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o system bresennol llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru neu unrhyw un sydd yn yr arfaeth.

Lluniwyd "Arweiniad i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru" i gynnig un ffynhonnell wybodaeth gynhwysfawr am rôl, cyfansoddiad, swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Comisiwn.

**Edrych ymlaen at y Pedwerydd Cynulliad**

A ninnau ar drothwy'r Pedwerydd Cynulliad, ar adeg pan fo'r cyd-destun cyfansoddiadol a gwleidyddol wedi newid eto, mae'n amserol i ni adolygu'r gwersi a ddysgwyd o'r pedair blynedd diwethaf ac ystyried yr heriau sydd o'n blaenau. Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn helpu'r Comisiwn newydd wrth bennu arferion da i'w cynnwys yn nulliau gweithio'r Cynulliad yn y dyfodol, ac wrth ffurfio ei flaenoriaethau strategol ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad.

Ar ddechrau'r adroddiad mae trosolwg ar y camau a gymerodd y Comisiwn ynghylch ei strategaeth a'i drefniadaeth. Wedyn mae detholiad o gerrig milltir ac uchafbwyntiau i ddwyn i gof yr amrywiaeth sylweddol o weithgareddau yn ystod y pedair blynedd. Yn y penodau olaf mae adolygiad o gyflawniadau yn erbyn pum nod strategol y Comisiwn yn eu tro ac argymhellion i helpu'r Comisiwn yn y Pedwerydd Cynulliad.

Mae'r bleidlais o blaid rhoi pwerau deddfwriaethol i'r Cynulliad a'r sefyllfa wleidyddol newydd ar ôl etholiad y Cynulliad wedi rhoi cyd-destun newydd i'r Comisiwn newydd ar gyfer adolygu ei nodau strategol ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad. Rydym yn gobeithio y bydd y gwersi a ddysgwyd sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn yn cyfrannu at y broses honno.

Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas
William Graham
Peter Black
Lorraine Barrett
Chris Franks



# Strategaeth a threfniadaeth

**Y Strategaeth ar gyfer y Trydydd Cynulliad (2007–2011)**
Cytunodd y Comisiwn ar y canlynol fel diben cyffredinol: "Gwneud y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru".

Cytunodd hefyd ar nodau strategol a gwerthoedd i arwain ei waith a gwaith staff y Cynulliad yn ystod y Trydydd Cynulliad.

## Nodau strategol a gwerthoedd ar gyfer y Trydydd Cynulliad

**Byddwn yn hyrwyddo datganoli ac yn annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses.**
Yn ystod y pedair blynedd nesaf rhaid i'r Cynulliad ddangos ei fod yn gweithio dros bawb yng Nghymru gan eu hannog i gymryd rhan fwy ymarferol yn y broses ddemocrataidd. Byddwn yn pwysleisio sut y mae'r Cynulliad yn effeithio er gwell ar fywydau pobl Cymru. Caiff datganoli ei ehangu'n raddol drwy Ddeddf 2006, ac mae'n bosibl y bydd refferendwm ynghylch cael mwy o bwerau i ddeddfu, a byddwn yn barod i ymgymryd â'r heriau hyn gyda brwdfrydedd.

**Byddwn yn dangos undod ac arweiniad ac yn ymateb yn feiddgar i newidiadau cyfansoddiadol.**
Bydd y Cynulliad yn dangos hyder a gallu wrth ddefnyddio'i bwerau newydd. Rydym yn unedig yn ein bwriad i sicrhau gwaith craffu a deddfu o'r radd flaenaf, gan gynorthwyo'r Aelodau ym mhob agwedd ar eu gwaith fel cynrychiolwyr etholedig.

**Byddwn yn dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da ym mhob agwedd ar ein gwaith.**
Rhaid i ni ofalu bod modd i bobl graffu'n fanwl ar bob agwedd ar ein gwaith, rhaid i'n holl waith fod yn dryloyw a rhaid iddo adlewyrchu natur amrywiol Cymru a'i hieithoedd a'r modd yr ydym yn delio â'i phobl ac yn eu cynnwys yn ein gwaith.

**Byddwn yn gweithio'n gynaliadwy.**
Byddwn yn dangos arweiniad yn y ffordd yr ydym yn rheoli ein gwaith a'n hystâd a'n nod yw sicrhau ein bod yn gwneud hynny yn y ffordd fwyaf cynaliadwy bosibl.

**Byddwn yn gofalu bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, a gaiff ei ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol**
Byddwn yn codi safon y gwasanaethau a ddarperir i'r Aelodau a phobl Cymru, gan ddangos ein bod yn defnyddio'n hadnoddau'n ddoeth ac yn effeithiol ac yn rhoi gwerth am arian. Gwasanaethu, yng nghyswllt yr Aelodau a phawb sy'n ymwneud â'r Cynulliad, yw'r ethos sydd wrth wraidd popeth a wnawn.

**Ein gwerthoedd**
Mae Comisiwn y Cynulliad a'i staff yn:
- gweithredu er lles y Cynulliad bob amser;
- cynnal safonau uchel ac yn gwneud yr hyn yr ydym yn addo ei wneud;
- gweithio'n broffesiynol ac yn arloesol;
- gweithio'n agored ac yn gydweithredol;
- trin pawb â pharch.

## Meysydd cyfrifoldeb y Comisiynwyr

Mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol yn gorfforaethol am arfer y swyddogaethau sydd wedi'u rhoi i'r Comisiwn, lywodraethu'r corff ac, yn unol â hynny, am weithredu er budd y Cynulliad cyfan. Ar gyfer y Trydydd Cynulliad, roedd cyfrifoldebau'r Comisiwn wedi'u rhannu'n bortffolios gwahanol. Roedd gan bob Comisiynydd gyfrifoldeb unigol dros faes gwaith penodol. Roedd y meysydd portffolio hyn yn rhai trawsbynciol a strategol ac yn caniatáu i Gomisiynwyr weithio ar draws amryw o wasanaethau.

## Portffolios y Comisiynwyr

**Cadeirydd y Comisiwn—Y Gwir Anrhydeddus Yr Arglwydd Elis-Thomas AC**
Roedd y Comisiwn o dan gadeiryddiaeth y Llywydd, a oedd â chyfrifoldeb arbennig dros hyrwyddo ymgysylltiad democrataidd; arweiniad ardderchog; datblygu pwerau deddfu'r Cynulliad yn y dyfodol a chysylltiadau allanol.

**Comisiynydd y Cynulliad Cynaliadwy—Lorraine Barrett AC**
Roedd y portffolio hwn yn cynnwys cyfrifoldeb dros gydraddoldeb; iaith; yr amgylchedd a bod yn niwtral o ran carbon; caffael cynaliadwy a rheoli'r ystad.

**Comisiynydd y Cynulliad a'r Dinesydd—Peter Black AC**
Roedd y portffolio hwn yn cynnwys edrych ar ansawdd craffu a'r broses ddeddfu; cyfathrebu allanol; TGCh; addysg ym maes dinasyddiaeth; materion cyfreithiol a Rhyddid Gwybodaeth.

**Comisiynydd y Cynulliad sy'n Gwella—Chris Franks AC**
Roedd y portffolio hwn yn cynnwys edrych ar wella gwasanaethau i Aelodau a dinasyddion; cynnwys rhanddeiliaid yng ngwaith y Cynulliad; cynllunio strategol; ac ystyried gwerth am arian.

**Comisiynydd Adnoddau'r Cynulliad—William Graham AC**
Roedd y portffolio hwn yn cynnwys edrych ar reoli asedau'r Cynulliad; pobl y Cynulliad (gan gynnwys staff, contractwyr, gwasanaethau a ddarperir i gynorthwyo staff cymorth Aelodau'r Cynulliad); cyllid; cyflogau a lwfansau Aelodau; effeithlonrwydd a llywodraethu da.

**Claire Clancy**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad

### Y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau–

**Dianne Bevan**
Prif Swyddog Gweithredu

**Connie Cockburn**
Pennaeth Ystadau a TGCh

**Steven O'Donoghue**
Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad

**Non Gwilym**
Pennaeth Cyfathrebu Allanol

### Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad–

**Adrian Crompton**
Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

**Sulafa Halstead**
Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad

**Mair Parry-Jones**
Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi

**Kathryn Potter**
Pennaeth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

**Sian Wilkins**
Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth

### Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol–

**Keith Bush**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol

### Yr Uned Gorfforaethol–

**Craig Stephenson**
Pennaeth yr Uned Gorfforaethol

## Strwythur y sefydliad

Yn ystod cyfarfod cyntaf y Comisiwn ym mis Mehefin 2007, cytunodd y Comisiwn, yn unol â'r Ddeddf, i ddirprwyo ei swyddogaethau, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros reoli staff, i'r Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, yn ddarostyngedig i nifer o eithriadau ac amodau.

Sefydlwyd strwythur trefniadol newydd, wedi'i ategu gan adnoddau priodol, i hybu gallu'r Cynulliad i weithredu'n effeithiol fel deddfwrfa. Penodwyd tri Chyfarwyddwr—Prif Swyddog Gweithredu, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad a Phrif Gynghorydd Cyfreithiol/ Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol. Yn ystod oes y Cynulliad, cryfhawyd nifer o swyddogaethau er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn gallu gweithredu'n effeithiol fel deddfwrfa a darparu cymorth effeithiol i Aelodau'r Cynulliad, yn ogystal ag ymgysylltu'n effeithiol ag etholwyr Cymru.

Sefydlwyd trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn o'r dechrau. Un agwedd ar hynny oedd sefydlu Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, a elwir bellach yn Bwyllgor Archwilio, i gynghori'r Comisiwn a'r Prif Weithredwr ar faterion cyllid, archwilio a llywodraethu corfforaethol.

Er mwyn sicrhau bod Comisiynwyr ac uwch swyddogion yn gallu elwa o ystod eang o brofiad i'w helpu i gyflawni swyddogaethau'r Comisiwn, ym mis Tachwedd 2007 penododd y Comisiwn gynghorwyr annibynnol i weithredu mewn cymhwyster anweithredol annibynnol. Mae'r cynghorwyr annibynnol wedi cynnig her adeiladol ym mhob rhan o fusnes y Comisiwn gyda'r bwriad o sicrhau craffu ar bob agwedd ar strategaeth a chyflawniad o safbwynt effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Cyfranasant at fonitro perfformiad a chynnydd y corff, gan gynnwys y defnydd o adnoddau dynol ac ariannol, a chadw trosolwg beirniadol ar reolaethau a gweithdrefnau ariannol y corff.

| Blwyddyn | Nifer y staff–cyfanswm y cyfrif pennau | Cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|---|
| 31 Mawrth 2011 | 342 | 326.72 |
| 31 Mawrth 2010 | 379 | 364.38 |
| 31 Mawrth 2009 | 362 | 348.20 |
| 31 Mawrth 2008 | 321 | 308.11 |
| 31 Mawrth 2007 | 300 | 286.75 |

## Cynghorwyr annibynnol y Comisiwn

**Mair Barnes**
Mae Mair Barnes yn dal nifer o gyfarwyddiaethau anweithredol ac mae'n gyn Gadeirydd i Vantios ccc ac yn gyn Reolwr Gyfarwyddwr ar Woolworths ccc. Mae wedi dal cyfarwyddiaethau anweithredol yn yr Adran Masnach a Diwydiant a Swyddfa'r Cabinet.

**Richard Calvert**
Ailymunodd Richard â'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol yn Awst 2009 fel Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Gyllid a Pherfformiad Corfforaethol ar ôl bod am ddwy flynedd a hanner yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd, lle'r oedd yn dal swydd Cyfarwyddwr Strategaeth ac Adnoddau. Y rôl olaf a oedd gan Richard yn yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, cyn mynd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd, oedd Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad Corfforaethol. Mae Richard yn Gyfrifydd Rheoli cymwysedig, ac mae wedi cyflawni nifer o rolau anweithredol yn y sector cyhoeddus.

**Tim Knighton**
Ar hyn o bryd mae Tim Knighton yn Gyfarwyddwr Cyflenwi Atebion Busnes yn Nhŷ'r Cwmnïau. Cyn dod i Dŷ'r Cwmnïau yn 2007 fel Cyfarwyddwr Cyllid, treuliodd Tim ddeng mlynedd gyda Tesco ccc mewn amryw o rolau cyllid, gan ddal cyfrifoldeb yn olaf am ei weithrediad gwasanaethau ar y cyd yn y DU. Cyn hyn roedd yn Gyfarwyddwr Gweithredol gyda Goldman Sachs yn ei Is-adran Marchnad Gyfalaf.

**Yr Athro Robert Pickard**
Mae'r Athro Robert Pickard wedi dal nifer mawr o benodiadau cyhoeddus, llawer ohonynt ym maes iechyd a lles. Ymysg ei benodiadau presennol, mae'n un o Gymrodyr Cymdeithas Frenhinol Meddygaeth. Mae'n wyddonydd o ran ei gefndir.

## Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Yn unol â Rheolau Sefydlog, caiff Aelodau'r Cynulliad gyflwyno cwestiynau i'r Comisiwn am unrhyw fater sy'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Comisiwn—i gael ateb ysgrifenedig neu lafar.

**Cwestiynau ysgrifenedig**
Cyflwynir cwestiynau ysgrifenedig gan Aelodau'r Cynulliad a bydd ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn comisiynu ateb drafft. Wedi iddo gael ei glirio gan y Cyfarwyddwr perthnasol, caiff ei gyflwyno i'r Comisiynydd Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros ei gynnwys yn ei bortffolio er mwyn ei gymeradwyo. Rhoddir yr ymateb y cytunir arno i'r Aelod a gyflwynodd y cwestiwn a chaiff ei gyhoeddi fel rhan o Gofnod y Trafodion.

Yn y Trydydd Cynulliad, cyflwynwyd 54 o gwestiynau ysgrifenedig ar amryw o bynciau a oedd yn cynnwys:

– cost gweithgareddau Comisiwn y Cynulliad ar adeg y Nadolig, diwrnodau cwrdd i ffwrdd i staff, ailfrandio'r Cynulliad, hyfforddiant Cymraeg, biliau am atgyweirio'r Senedd ac Uned Heddlu'r Cynulliad;
– niferoedd y staff sydd wedi'u disgyblu, eu hatal dros dro neu eu diswyddo;
– mynediad i'n hadeiladau ar gyfer pobl anabl;
– materion cynaliadwyedd.

**Cwestiynau llafar**

Caiff amser ei neilltuo ym mhob pedair wythnos y bydd y Cynulliad yn cwrdd i Aelodau ofyn cwestiynau llafar sy'n ymwneud â busnes y Comisiwn. Yn y Trydydd Cynulliad, cytunodd y Comisiynwyr y byddai un Comisiynydd yn ei dro'n ateb yr holl gwestiynau ym mhob mis mewn trefn gylchol yn hytrach nag ymateb yn unigol i gwestiynau unigol yn eu maes portffolio. Cyflwynir cwestiynau o leiaf bum diwrnod gwaith, ond heb fod yn fwy na deg diwrnod gwaith, cyn eu bod i gael eu hateb a phenderfynir ar drefn y cwestiynau llafar drwy gymysgiad ar hap yn y Swyddfa Gyflwyno.

Bydd ysgrifenyddiaeth Comisiwn y Cynulliad yn comisiynu ymatebion drafft a phapurau briffio cefndirol ar gyfer pob un o'r cwestiynau ac anfonir y rhain wedyn at y Comisiynydd i'w cymeradwyo'n derfynol. Cyn y Cyfarfod Llawn, trefnir sesiynau briffio gyda staff y Cynulliad yn ôl yr angen. Atebwyd 54 o gwestiynau llafar yn y Trydydd Cynulliad ac fe'u cyflwynwyd gan Aelodau o bob un o'r pleidiau. Roedd cwestiynau llafar yn cwmpasu amryw o bynciau gan gynnwys:

– rôl y Comisiwn yn y refferendwm ar bwerau deddfu i'r Cynulliad;
– cyllideb flynyddol ac arbedion gweinyddol y Comisiwn;
– ymweliadau gan ysgolion â'r Cynulliad;
– arlwyo;
– mannau parcio i staff;
– diddymu;
– prosiectau TGCh;
– cynnydd ar y Bwrdd Taliadau annibynnol.

**Cwestiynau brys**

Caiff Aelod gyflwyno cais am gwestiwn brys i'w ateb gan Gomisiwn y Cynulliad ond ni chafwyd cais o'r fath yn y Trydydd Cynulliad.

# Y Trydydd Cynulliad: rhai o'r cerrig milltir ac uchafbwyntiau

## 2007

### Mai

Cynhaliodd y Cynulliad ei Gyfarfod Cyntaf o'r Trydydd Cynulliad ym Mai, am y tro cyntaf o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a chafodd y corff corfforaethol mwy ei rannu'n ffurfiol yn Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Etholwyd Llywydd a Dirprwy Lywydd.

### Mehefin

Agorwyd y Trydydd Cynulliad yn swyddogol gan Ei Mawrhydi Y Frenhines, Ei Fawrhydi Brenhinol Dug Caeredin, Ei Fawrhydi Brenhinol Tywysog Cymru ac Ei Mawrhydi Brenhinol Duges Cernyw ym mhresenoldeb Aelodau, y farnwriaeth, cynrychiolwyr llywodraeth leol, llefarwyr seneddau cysylltiedig yn y DU, y Gymanwlad ac Ewrop, diplomyddion a chynrychiolwyr pobl hŷn a phobl ifanc o bob rhan o Gymru.

Etholwyd Comisiynwyr a chawsant eu cyfarfod cyntaf.

Cyflwynwyd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol cyntaf i'w gynnig gan y Llywodraeth (Gorchymyn Anghenion Dysgu Ychwanegol 2008). Cynhaliwyd balotau cyntaf yr Aelodau–a'u hennill gan Ann Jones (Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Diogelwch Tân Domestig) a Jenny Randerson (Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion).

### Gorffennaf

Cytunodd y Comisiwn ar ei fframwaith strategol ar gyfer y Trydydd Cynulliad, gan bennu pum nod allweddol a'i weledigaeth i wneud y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder ym mhobl Cymru.

Cyflwynwyd y Mesur cyntaf wedi'i gynnig gan y Llywodraeth (Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG 2008).

Cynhaliodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd gyfarfod ffurfiol yn Sioe Frenhinol Cymru–y cyfarfod cyntaf ffurfiol gan un o bwyllgorau'r Trydydd Cynulliad y tu allan i Gaerdydd.

Cyhoeddwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Cynulliad ar gyfer 2007–11, gan ddatgan uchelgais y Cynulliad i fod yn gorff gwirioneddol ddwyieithog a rhoi dwyieithrwydd yn ganolog i bob agwedd ar ei waith.

### Medi

Traddodwyd araith gan y Llywydd i nodi dengmlwyddiant y refferendwm ar ddatganoli yng Nghymru. Galwodd am fabwysiadu'r termau Cynulliad a Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn haws i'r cyhoedd ddeall y gwahanol rolau.

### Hydref

Lansiwyd Operation Black Vote i helpu i ymateb i'r diffyg o ran cyfranogi democrataidd gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.

Croesawodd y Senedd ei 500,000fed ymwelydd–Maura Buckley, a oedd yn ymweld â'r Cynulliad ar ei phen blwydd yn 71 oed.

Craffodd y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb y Comisiwn am y tro cyntaf, gan fynegi ei gymeradwyaeth i ddull agored y Comisiwn o ymdrin â'i broses gyllideb a'i barodrwydd i gymryd rhan yn llawn mewn craffu parhaus.

Cafodd y Comisiwn gydnabyddiaeth drwy ddyfarnu'r Tic Dwbl Anabledd, sy'n dangos rhagoriaeth wrth sicrhau amrywiaeth yn y modd yr ydym yn recriwtio ac yn datblygu staff anabl.

### Tachwedd

Craffodd y Pwyllgor Cyllid ar gynigion cyllideb Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf, gan gwrdd bum gwaith i gyd a gwneud argymhellion, y derbyniwyd nifer ohonynt gan Lywodraeth Cymru.

Penodwyd pedwar cynghorydd annibynnol i sicrhau bod Comisiwn y Cynulliad ac uwch reolwyr yn cael cymorth a her adeiladol wrth gyflawni eu rolau.

Ailedrychwyd ar adroddiad hygyrchedd y Senedd a gwnaed gwelliannau o ran hygyrchedd o ganlyniad.

Cynhaliodd Public Affairs Cymru ginio mawreddog yn y Pierhead i ddathlu ei ben blwydd cyntaf.

### Rhagfyr

Cyfarfu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am y tro cyntaf i gynghori'r Comisiwn ynghylch risg, archwilio, llywodraethu da ac arferion ariannol. Cyflwynwyd y Datganiad Rheolaeth Fewnol, a fyddai'n dod yn rhan annatod o brosesau'r corff drwy gydol y flwyddyn.

Datblygwyd rhwydwaith staff Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol i ddarparu cymorth anffurfiol i weithwyr sy'n bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol a chymryd rhan ym mhroses asesu'r effaith ar gydraddoldeb.

Cyflwynodd y Pwyllgor Cyllid ei adroddiad cyntaf am gyllideb Llywodraeth Cymru.

Cyfarfu'r panel annibynnol cyntaf ar Gymorth Ariannol i Aelodau Cynulliad am y tro cyntaf.

Craffodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar Adroddiad Blynyddol y Comisiwn ar Gydraddoldeb am y tro cyntaf.

## 2008

### Ionawr

Cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Lles ymgynghoriad yn y Senedd ar ei ymchwiliad i Gydsyniad Tybiedig ar gyfer Rhoi Organau, gan wahodd aelodau o'r cyhoedd i roi eu barn. Cydweithiodd y Pwyllgor â'r tîm Addysg i fynd â'r ymgynghoriad i ysgolion.

Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal adolygiad o ganlyniadau ei ymchwiliad i Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc Anabl, gan weithio gyda'r un grŵp o bobl ifanc anabl i nodi newidiadau.

Estynnodd y Llywydd groeso i Is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd i'r Senedd. Cynullwyd Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan am y tro cyntaf i roi cyfle i Aelodau gymryd rhan mewn dadl â Ms Margot Wallström.

Daeth y Mesur Cynulliad cyntaf i ddiwedd y cam cyntaf yn y broses ddeddfu pan drafodwyd ef mewn Cyfarfod Llawn. Nod Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) oedd ei gwneud yn haws ac yn gyflymach i gleifion y GIG hawlio digolledіad os aiff rhywbeth o'i le ar eu triniaeth.

Rhoddwyd gwobr wleidyddol glodfawr Channel 4/Cymdeithas Hansard am Operation Black Vote.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar y cyd gan un o bwyllgorau'r Cynulliad a Phwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin i graffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig ynghylch gofal cartref.

Sefydlwyd Pwyllgor Taliadau annibynnol i ystyried a gwneud argymhellion ynghylch tâl a pherfformiad uwch swyddogion mewn modd tryloyw a chadarn.

Lansiwyd 'Cyfnewid', sef mecanwaith i roi cyfle i staff y Cynulliad fynegi barn am bynciau corfforaethol.

### Chwefror

Cyflwynodd Jonathan Morgan AC Orchymyn arfaethedig ynghylch hawliau i gleifion Iechyd Meddwl—y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol cyntaf a gynigiwyd gan Aelod i gyrraedd y cam hwn.

Cymeradwywyd y Gorchymyn cyntaf gan y Cynulliad—Gorchymyn a gynigiwyd gan y Llywodraeth a oedd yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant.

Cynhaliwyd seminar gan y Prif Gynghorydd Cyfreithiol ar fynediad at ddeddfwriaeth Cymru, i ystyried ffyrdd i sicrhau mynediad rhwydd ac effeithiol at wybodaeth ddibynadwy am ddeddfwriaeth Cymru a phwerau statudol Gweinidogion Cymru.

### Mawrth

Cyflwynwyd y Mesur cyntaf wedi'i gynnig gan Aelod (Bwyta'n Iach mewn Ysgolion 2008).

Cyflwynodd Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau wasanaeth tracio ar-lein a oedd wedi'i ddatblygu i helpu'r cyhoedd i gael gwell dealltwriaeth o waith y pwyllgorau craffu a deddfwriaeth.

Ar ôl cynnal proses recriwtio agored gyda chymorth staff y Cynulliad o dan gadeiryddiaeth Alun Cairns AC, enwebodd y Cynulliad Peter Tyndall yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru—cadarnhawyd y penodiad gan Ei Mawrhydi Y Frenhines.

Cyhoeddwyd adroddiad y panel annibynnol cyntaf ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad a wnaeth argymhellion am gyflogau Aelodau a gafodd eu derbyn gan y Comisiwn.

**Ebrill**

Cafwyd Cymeradwyaeth Frenhinol i'r Gorchymyn cyntaf a oedd wedi'i gynnig gan y Llywodraeth (Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) 2008).

Lansiwyd Siambr Hywel fel y siambr drafod bwrpasol gyntaf yn Ewrop i bobl ifanc, a cham pwysig gan y Cynulliad i gynnwys pobl ifanc drwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.

Cyflwynwyd system e-ddeisebau'r Cynulliad, ar ôl ei lansio gan Peter Black AC, gan arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y deisebau a gyflwynwyd. Hefyd cyflwynodd y Cynulliad senedd.tv, e-fforymau, a chyfleuster pleidleisio cyflym ar gyfer ymgyngoriadau ar-lein gan bwyllgorau.

Gwnaed gwaith adnewyddu yn Nhŷ Hywel er mwyn hybu cynaliadwyedd, gan ddefnyddio goleuadau sy'n cael eu cynnau gan synhwyrydd, carpedi â 55 y cant o'u defnydd wedi'i ailgylchu, systemau gwresogi/oeri mwy effeithlon, dodrefn wedi'u cyflenwi'n lleol a gwell defnydd o le. Gosodwyd peiriannau sychu dwylo ynni-effeithlon yn yr holl doiledau, i'w defnyddio yn lle tyweli papur fel bod tua 4–6 tunnell fetrig yn llai o wastraff yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn.

Ffurfiwyd Bwrdd Rheoli i gymryd lle'r Bwrdd Gweithredol. Roedd y Bwrdd newydd yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaethau yn ogystal â chyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr ac roedd ganddo gyfrifoldeb dros faterion rheoli, gweithredu a pholisi.

Cymeradwywyd Bathodyn Brenhinol Cymru i'w ddefnyddio ar Fesurau Cynulliad cyhoeddedig. Mae cymeriad Cymreig neilltuol i'r bathodyn ac felly mae'n briodol i ddangos natur unigryw Mesurau Cynulliad fel deddfwriaeth Gymreig.

**Mai**

Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 oedd yr eitem gyntaf o ddeddfwriaeth sylfaenol i'w phasio gan y Cynulliad Cenedlaethol, y ddeddf Gymreig gyntaf i'w phasio ers yr oesoedd canol a'r ddeddf ddwyieithog gyntaf erioed i'w phasio ym Mhrydain.

Roedd gwaith celf gan Dylan Hammond a oedd yn cynnwys portreadau mewn tunplat o'r Farwnes Thatcher ac Aneurin Bevan yn destun trafod a dadlau pan gafodd ei osod ym mlaen y Senedd.

Traddodwyd araith gan y Llywydd i nodi diwedd blwyddyn gyntaf y setliad datganoli newydd lle y dywedodd ei fod yn falch o'r ffordd yr ydym wedi ymateb i heriau Cyfansoddiad newydd Cymru a'i bwerau deddfu.

Rhoddodd y Llywydd ac Adrian Crompton dystiolaeth i Bwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin fel rhan o'i ymchwiliad i ddatganoli ar ôl deng mlynedd.

**Mehefin**

Croesawyd Ei Fawrhydi Brenhinol Tywysog Cymru gan y Cynulliad i siarad yn y colocwiwm 'Dyfodol Cyllid' a drefnwyd gan y WCVA yn y Pierhead. Yn ogystal â hynny, agorodd Siambr Hywel yn swyddogol.

Dechreuodd y Comisiwn ar ymgynghoriad cyhoeddus ar ei Gynllun Cydraddoldebau Sengl a Chynllun Gweithredu drafft.

Craffodd Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad ar waith swyddogion mewn cysylltiad ag adeiladu'r Senedd mewn sesiwn heriol ond cadarnhaol. Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar gynaliadwyedd yr adeilad, gan gynnwys ei ddefnydd o ynni.

**Gorffennaf**

Cyhoeddodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei adroddiad blynyddol cyntaf.

Dathlodd y Pwyllgor Deisebau ei flwyddyn gyntaf lwyddiannus drwy gynnal cyfarfod cyhoeddus yn Sioe Frenhinol Cymru. Cafwyd mwy na 100 o ddeisebau yn ystod ei flwyddyn gyntaf.

**Awst**

Penodwyd panel annibynnol, o dan gadeiryddiaeth Syr Roger Jones, i adolygu system tâl a lwfansau Aelodau'r Cynulliad.

Croesawodd y Llywydd arwyr olympaidd Cymru i'r Senedd, pan gyrhaeddodd y medalwyr aur Nicole Cooke a Geraint Thomas a'r medalwr arian David Davies ar ôl taith mewn bws agored o gwmpas Bae Caerdydd.

**Medi**

Lansiwyd gwasanaeth addysg allgyrch ar gyfer de Cymru.

Cyhoeddwyd arolwg a oedd wedi'i gomisiynu gan y Cynulliad o ddealltwriaeth y cyhoedd o'r sefyllfa wleidyddol yng Nghymru a oedd yn dangos bod mwy na 70 y cant o bobl o blaid datganoli pŵer yn rhannol neu'n llawn i Gymru.

**Tachwedd**

Cynhaliwyd cynhadledd dan nawdd y Cynulliad ynghylch Safbwyntiau ar Gyfranogiad Ieuenctid, gyda'r bwriad o feithrin cysylltiadau buddiol rhwng nifer o gyrff yn y DU a oedd â diddordeb mewn cymell pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Lansiodd y Cynulliad ei Gynllun Cydraddoldeb Sengl.

Enillodd y Cynulliad ddyfarniad Lefel 5 o dan System Reoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd i'r ystad gyfan, sef y lefel uchaf y gellir ei chyrraedd yn y DU.

**Rhagfyr**

Croesawodd y Llywydd ei gymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon i'r Cynulliad i helpu i ddatblygu a chryfhau'r cysylltiadau gweithio agos rhwng deddfwrfeydd datganoledig y DU.

Enillodd y Llywydd Wobr Gwleidydd y Flwyddyn Wales Yearbook 2008 am ei ran yn y gwaith o drawsnewid y Cynulliad yn wir ddeddfwrfa sy'n pasio deddfau Cymreig o dan ei bwerau newydd.

Dathlwyd Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl yn y Cynulliad gyda rhaglen a oedd yn cynnwys gweithdai hyfforddiant hygyrch, cyflwyniadau gan baralympiaid, trafodaethau am hawliau anabledd a DVD ar hygyrchedd adeiladau cyhoeddus yng Nghymru.

## 2009

### Ionawr

Enwyd y Cynulliad Cenedlaethol yn un o'r 100 o gyflogwyr sy'n fwyaf ystyriol o bobl hoyw yn y DU, yn ôl Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall 2009, fel mai'r Cynulliad oedd y cyflogwr a oedd wedi gwella mwyaf yng Nghymru o ran cynnig gweithle ystyriol o bobl hoyw a'r cyflogwr a oedd wedi gwella'n ail fwyaf yn y DU.

### Mawrth

Dechreuwyd cynnwys clipiau sain dwyieithog gyda datganiadau'r Cynulliad i'r cyfryngau, i helpu gorsafoedd radio lleol i gynnwys mwy o wybodaeth am y Cynulliad.

Cafodd y Pwyllgor Deisebau ei 150fed ddeiseb gan Glwb Gateway Iau Rhydaman, yn galw am nofio am ddim i blant a phobl ifanc.

### Ebrill

Cyhoeddwyd adolygiad ichange a oedd yn canolbwyntio ar y modd y gallai'r Cynulliad ddefnyddio TG i weithio ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn well. Roedd yr adolygiad wedi'i seilio ar ymgynghoriad cynhwysfawr ag Aelodau, eu staff, staff y Cynulliad a rhanddeiliaid. Dechreuwyd gweithio ar newidiadau mewn rhwydweithiau TGCh, a phenderfynwyd ar galedwedd a meddalwedd i sicrhau bod technoleg yn cyfrannu'n llawn at waith y Cynulliad.

Galwodd y Cynulliad am dystiolaeth fideo am y tro cyntaf wrth i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd ddechrau ar ei ymchwiliad i lifogydd.

### Mai

Dengmlwyddiant y Cynulliad. Cynhaliodd y Llywydd barti pen blwydd yn ddeg oed i ddeg o blant a oedd yn dathlu eu pen blwydd yr un pryd â'r Cynulliad ar 12 Mai 2009.

Lansiwyd Bws Allgymorth amlgyfrwng yn Venue Cymru yn Llandudno, a oedd yn galluogi pobl o bob rhan o Gymru i ddysgu mwy am y ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithio, gadael negeseuon fideo i Aelodau a darparu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau pwyllgorau.

Aeth y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc â Dewi'r Ddraig i Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd i annog pobl ifanc i fynegi eu barn am waith y Cynulliad yn y dyfodol.

Cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd, a chymerodd y Senedd ran yn y digwyddiad swyddogol drwy ddarparu lle i'r arddangosfa Celf a Chrefft a'i 400 o weithiau celfyddydol ac i'r set rhaglenni teledu lle y cafwyd darllediadau byw bob diwrnod.

### Mehefin

Cynhaliodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd ymchwiliad i lifogydd yng Nghymru gan ddefnyddio bws y Cynulliad a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru i glywed yn uniongyrchol gan bobl yn yr ardaloedd lle y cafwyd llifogydd. Cynhyrchwyd ffilm fideo fyr o farn y bobl fel rhan o'r ymchwiliad.

Dechreuwyd cyhoeddi treuliau Aelodau'r Cynulliad ar wefan y Cynulliad, a chafwyd 2,000 o drawiadau yn y 24 awr gyntaf. Croesawyd y 750,000fed ymwelydd i'r Senedd.

Cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol o Gynhadledd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yn y Cynulliad, a chlywodd Gomisiynydd y Cynulliad Cynaliadwy am y modd y mae'r Cynulliad yn a rwain y blaen o ran cydbwysedd y rhywiau mewn cynrychiolaeth wleidyddol.

### Gorffennaf

Cyhoeddwyd adroddiad Yn Gywir i Gymru a oedd yn cynnig gwelliannau i'r system cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad. Roedd yn adolygiad annibynnol cynhwysfawr a phellgyrhaeddol o dâl Aelodau a lwfansau ar gyfer teithio, llety, cyllid ar gyfer swyddfeydd etholaeth a rhanbarth a staff cymorth. Derbyniodd y Comisiwn bob un o'r 108 o argymhellion a dechreuwyd eu gweithredu ar unwaith.

Cafodd y Senedd ei chydnabod fel yr adeilad llywodraeth mwyaf gwyrdd yn y DU—daeth y cyhoeddiad yr un diwrnod â Diwrnod Prydain Werdd ar 10 Gorffennaf.

Cyhoeddodd y Comisiwn ei ail adroddiad blynyddol, gan ganolbwyntio ar sut i wneud i ddemocratiaeth weithio yng Nghymru.

**Medi**

Ymwelodd 60 o bobl ifanc â'r Cynulliad i gymryd rhan yn Sgwad Sgwennu'r Academi. Yn ogystal â chymryd rhan mewn dadl, anogwyd y bobl ifanc i chwilio am ysbrydoliaeth o'r Senedd er mwyn cyfansoddi cerddi ynghylch datganoli.

Ymwelodd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, John Bercow AS, â'r Cynulliad i gwrdd â'r Llywydd er mwyn dysgu mwy am waith y Cynulliad ac, yn benodol, beth mae'r Cynulliad yn ei wneud i gymell mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd drwy e-ddeisebau a Senedd.tv.

Crëwyd pedwaredd ystafell bwyllgora er mwyn cael mwy o le ar gyfer gwaith cynyddol y pwyllgorau.

Cynhaliwyd gweithdy arweinyddiaeth gan Gemau Ysgol y DU, sy'n cael ei reoli gan yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid, ar gyfer ei arweinwyr a gwirfoddolwyr ifanc yn Siambr Hywel cyn y seremoni agoriadol.

**Hydref**

Daeth y Senedd yn un o adeiladau cyhoeddus mwyaf ynni-effeithlon y DU pan uwchraddiwyd ei Thystysgrif Arddangos Ynni o C i B.

Lansiwyd Camu Ymlaen Cymru– prosiect cyffrous i Gymru gyfan mewn partneriaeth â CLILC a Llywodraeth Cymru i helpu'r rheini sydd heb arfer cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth i gael profiad o weithio gydag Aelodau o'r Cynulliad a chynghorwyr lleol ac i gymryd rhan mewn bywyd dinesig a chyhoeddus er mwyn dod yn genhadon dros ddemocratiaeth o fewn eu cymunedau a'u grwpiau.

Cyflwynwyd y Mesur cyntaf i'w gynnig gan y Comisiwn gyda'r bwriad o greu corff statudol, annibynnol i benderfynu ar dâl a lwfansau Aelodau.

Pasiodd y Cynulliad y ddeddfwriaeth gyntaf i'w chyflwyno gan Bwyllgor (y Mesur Comisiynydd Safonau) i roi swydd y Comisiynydd ar sail statudol.

**Tachwedd**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gonfensiwn Cymru Gyfan a oedd yn datgan bod symud tuag at bwerau deddfu llawn i'r Cynulliad ym mhob un o'r meysydd a ddatganolwyd yn cynnig mantais sylweddol o'i gymharu â'r trefniadau cyfredol.

Cytunodd y Comisiwn ar ei Strategaeth Rheoli Carbon, gan rwymo'r Cynulliad i gyrraedd y nod ymestynnol o fod yn garbon niwtral erbyn 2015, drwy ddatblygu arferion busnes mwy ynni-effeithlon a hybu cynaliadwyedd ymysg staff, Aelodau a rhanddeiliaid eraill.

Cafwyd cefnogaeth i'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol cyntaf i'w gynnig gan bwyllgor, a'r cyntaf hefyd i ddeillio'n uniongyrchol o'r broses ddeisebau, gan Lywodraeth Cymru.

Cynhaliodd y Cynulliad Benwythnos Agored i ddathlu degfed pen blwydd datganoli a phumed pen blwydd Canolfan Mileniwm Cymru. Cyflwynwyd amrywiaeth o berfformiadau, a chynhaliwyd cyngerdd lle cafwyd y perfformiad cyntaf o waith newydd gan Karl Jenkins.

Sefydlwyd Bwrdd y Rhaglen Newid i sicrhau bod dull cydgysylltiedig o drafod prosiectau newid busnes y Cynulliad ar sail blaenoriaethau.

**Rhagfyr**

Penodwyd Prif Weinidog Cymru newydd.

Cynhaliwyd digwyddiad yn y Senedd gan Gangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad i nodi'n swyddogol a dathlu trigainmlwyddiant y Gymanwlad fodern lle'r oedd mwy na 130 o westeion o fwy na 30 o wledydd y Gymanwlad yn bresennol.

Dechreuodd panel annibynnol ar adolygiad o'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog yn y Cynulliad.

Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol i Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cafodd y Pwyllgor Deisebau'r ddeiseb fwyaf hyd hynny, ac arni fwy na 15,000 o lofnodion, yn galw am dynnu'n ôl o Strategaeth Is-ranbarth Gorllewin Swydd Gaer/Gogledd-ddwyrain Cymru.

## 2010

### Ionawr

Cafodd y Cynulliad ei osod yn 47fed o blith y 100 o weithleoedd sy'n fwyaf ystyriol o bobl hoyw yn y DU ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall (gwelliant o'r 73ydd safle yn y flwyddyn flaenorol).

Gosodwyd pod BBC Democratiaeth Fyw yn y Senedd i'w gwneud yn haws byth i bobl ddod i wybod am waith y Cynulliad.

Yn adroddiad Cynhadledd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ar gydraddoldebau, canmolwyd y gwaith a oedd wedi'i wneud ar gydraddoldebau yn y Cynulliad Cenedlaethol, ac argymell y dylai San Steffan ystyried cynllun ar gyfer y DU sy'n debyg i'r cynllun Camu Ymlaen Cymru, a dweud y byddai'r Tŷ a'i Aelodau'n cael budd o fod â thîm mewnol bach wedi'i seilio ar fodel tîm Cydraddoldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Chwefror

Pleidleisiodd y Cynulliad yn unfrydol o blaid cynnal refferendwm ynghylch a ddylid rhoi pwerau deddfu pellach iddo.

Cynhaliodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol gyfarfod ffurfiol ym Mrwsel, cyfarfod ffurfiol cyntaf y Pwyllgor â phob un o'r pedwar Aelod o Gymru yn Senedd Ewrop.

Dechreuwyd ar brosiect i greu systemau cyfrifiadurol sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru (UNO).

### Mawrth

Ar ôl gwaith adnewyddu ac adfer mewnol, agorwyd y Pierhead i'r cyhoedd fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Ymwelodd bron 10,000 o bobl â'r Pierhead yn y mis cyntaf ar ôl ei agor. Cynhaliwyd y Sesiynau cyntaf yn y Pierhead, gan gadarnhau ei swyddogaeth fel lle i argyhoeddi, cynrychioli ac ysbrydoli trafodaeth gyhoeddus. Roedd mwy na 700 o bobl yn bresennol.

Trafodwyd y Mesur cyntaf a gynigiwyd gan y Comisiwn—i sefydlu corff annibynnol i bennu tâl a lefelau cymorth ariannol Aelodau—gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn.

### Mai

Cafwyd adroddiad gan y panel annibynnol ar wasanaethau dwyieithog, o dan gadeiryddiaeth Arwel Ellis Owen, ar ddyfodol gwasanaethau dwyieithog yn y Cynulliad. Derbyniodd y Comisiwn yr argymhellion a rhwymo'r Cynulliad i greu Cofnod Trafodion mwy hygyrch a hwylus i ddinasyddion, ac i ymdrechu i wireddu ein hamcan o ddod yn gorff gwirioneddol ddwyieithog.

Croesawodd y Llywydd y Gwir Anrhydeddus David Cameron AS i'r Cynulliad ar ei ymweliad cyntaf fel Prif Weinidog y DU. Siaradodd Prif Weinidog y DU am yr agenda ar barch a'i ymrwymiad i sicrhau bod datganoli'n gweithio'n well byth yn y dyfodol. Ailddatganodd y byddai ef a'i uwch Weinidogion yn y Trysorlys yn barod i ddod gerbron y Cynulliad a'i bwyllgorau i ateb cwestiynau.

Cyhoeddodd y Cynulliad adolygiad o Reolau Sefydlog y Cynulliad ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad.

### Mehefin

Dewiswyd Huw Vaughan Thomas yn ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Enillodd y Cynulliad wobr Aur Buddsoddwyr mewn Pobl, un o blith dim ond 25 o gyrff cyhoeddus yn y DU sydd wedi cyrraedd y safon hon, a'r unig un o blith deddfwrfeydd y DU.

Cynhaliwyd dathliadau Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog ar ystad y Cynulliad—roedd mwy na 50,000 o bobl yn bresennol gan gynnwys Ei Fawrhydi Brenhinol Tywysog Cymru, Ei Mawrhydi Brenhinol Duges Cernyw a Phrif Farsial yr Awyrlu, Syr Jock Stirrup.

### Gorffennaf

Cytunodd y Cynulliad ar y Mesur Taliadau a rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol iddo, i sefydlu corff statudol annibynnol i benderfynu ar y system cymorth ariannol i Aelodau. Dechreuwyd ar y broses recriwtio.

Cymerwyd y llw gan Aelod Cynulliad newydd dros Dde-ddwyrain Cymru yn dilyn urddo'r Arglwydd German.

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn ddiamod am y datganiad o gyfrifon y Comisiwn.

**Awst**

Siaradodd y Llywydd â phobl ifanc yn sioeau'r haf a chlywodd am bwysigrwydd ymgysylltu digidol fel yr allwedd i beri i bobl ifanc bleidleisio yn y refferendwm ac yn etholiad y Cynulliad yn 2011.

Ymwelodd y Bws Allgymorth â phrif sioeau'r haf, yn ogystal â nifer o sioeau lleol llai, i hyrwyddo thema Pleidleisiwch 2011.

Dechreuodd Bow Tie TV ar ei waith fel darlledwr y Cynulliad. Gosodwyd sgriniau fideo newydd yn orielau cyhoeddus y Siambr ac ystafelloedd pwyllgora'r Senedd er mwyn rhoi gwell mynediad at drafodion.

Gosodwyd sgriniau newydd yn y podiau gwybodaeth hefyd, a datblygwyd cynnwys amlgyfrwng newydd i gynnig gwell profiadau i ymwelwyr.

**Medi**

Cytunodd y Comisiwn ar ei strategaeth e-ddemocratiaeth, a oedd yn egluro sut y byddai'n defnyddio technolegau newydd i ymgysylltu ymhellach â phobl Cymru.

Penodwyd cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd Taliadau.

Dechreuwyd ar gamau cyntaf yr ymgyrch Pleidleisiwch 2011, gan annog pobl i gofrestru i bleidleisio.

Mewn fforwm ar Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl a drefnwyd gan y Comisiwn, daethpwyd i'r casgliad bod pobl anabl yn teimlo'n aml eu bod wedi'u hallgáu o'r broses ddemocrataidd yng Nghymru am nad oes darpariaeth ar gyfer eu hanghenion penodol.

Cyflwynwyd y 'Cofnod Cryno' newydd, sy'n cynnig dull mwy hwylus i gwsmeriaid o gael mynediad at drafodion y Cynulliad. Roedd y Cofnod Cryno yn un o argymhellion y panel annibynnol ar wasanaethau dwyieithog.

Pleidleisiodd mwyafrif llethol o staff ac Aelodau o blaid defnyddio Freedom Food ym mhob rhan o ystad y Cynulliad. Llongyfarchwyd y Cynulliad gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid a ddywedodd mai ef oedd y sefydliad cenedlaethol cyntaf yn y DU i ddewis bwyd sy'n ystyriol o les anifeiliaid a bod Aelodau Cynulliad a'u staff i'w canmol.

**Hydref**

Cyfarfu'r Bwrdd Taliadau am y tro cyntaf i ddechrau ystyried y system cymorth ariannol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn y Pedwerydd Cynulliad.

Dewiswyd y Comisiynydd Safonau statudol cyntaf.

Gosododd Llywodraeth Cymru Orchymyn i drefnu refferendwm ar bwerau deddfu'r Cynulliad, gan bennu 3 Mawrth 2011 fel y dyddiad ar ei gyfer.

Enwyd y Cynulliad fel y corff mwyaf cynaliadwy yn y sector cyhoeddus ar lefel llywodraeth yn y DU yng nghystadleuaeth Gwobrau Rheoli Cyfleusterau Cynaliadwy 2010.

Croesawodd y Llywydd Nick Clegg i'r Cynulliad.

Estynnodd y Llywydd groeso i Lywydd Comisiwn yr UE, José Manuel Barroso, i'r Cynulliad lle y gwelodd arddangosfa o brosiectau'r Cronfeydd Strwythurol a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru. Ar yr un diwrnod roedd y pedwar Aelod o Gymru yn Senedd Ewrop yn bresennol mewn digwyddiad yn y Pierhead.

Gadawodd 25 o aelodau staff y Cynulliad o dan gynllun diswyddo cynnar gwirfoddol. Cwblhawyd prosiect UNO i ddarparu cyfleusterau TG modern ac annibynnol i Aelodau, eu staff a staff y Cynulliad.

**Tachwedd**

Gweithiodd Cymdeithas Hansard a'r Cynulliad mewn partneriaeth i gynnal digwyddiad i ymchwilio i bwnc rhywedd a datganoli.

Teithiodd y Llywydd o gwmpas Cymru i annog pobl i gofrestru i bleidleisio.

Pasiwyd Gorchymyn y Refferendwm yn San Steffan.

Cynhaliwyd y cinio mawreddog cyntaf yn y Pierhead ers ei adnewyddu i gefnogi ymgyrch Freedom Food y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid.

Cyhoeddwyd ad-drefnu yn strwythur staff y Cynulliad ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad.

**Rhagfyr**

Rhoddodd y Frenhines yn y Cyfrin Gyngor Gymeradwyaeth Frenhinol i Fesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu (Cymru) 2010). Hwn oedd yr ail Fesur i'w gynnig gan Aelod y cytunwyd arno gan y Cynulliad. Mae'r Mesur yn rhoi awdurdodau lleol dan ddyletswydd i ystyried yr effaith o werthu caeau chwarae sy'n eiddo i awdurdod lleol ar gymunedau lleol.

Cymeradwyodd y Cynulliad Fesur arfaethedig y Gymraeg (Cymru).

## 2011

### Ionawr

Cynhaliwyd digwyddiad Pleidleisiwch 2011 i hybu ymwybyddiaeth o rwystrau i bobl anabl rhag cymryd rhan mewn democratiaeth.

Rhoddodd y Cynulliad fwy na 500 o gyfrifiaduron personol, 250 o argraffyddion a 130 o liniaduron i Remploy i'w hadnewyddu a'u hailgylchu ar ôl uwchraddio systemau yn y Cynulliad.

### Mawrth

Pleidlais o blaid yn y Refferendwm ar bwerau i'r Cynulliad yn y dyfodol.

Diddymu'r Cynulliad am y tro cyntaf am hanner nos ar 31 Mawrth 2011.



## Pum nod strategol y Comisiwn

### "Byddwn yn hyrwyddo datganoli ac yn annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses.

"Yn ystod y pedair blynedd nesaf rhaid i'r Cynulliad ddangos ei fod yn gweithio dros bawb yng Nghymru gan eu hannog i gymryd rhan fwy ymarferol yn y broses ddemocrataidd. Byddwn yn pwysleisio sut y mae'r Cynulliad yn effeithio er gwell ar fywydau pobl Cymru. Caiff datganoli ei ehangu'n raddol drwy Ddeddf 2006, ac mae'n bosibl y bydd refferendwm ynghylch cael mwy o bwerau i ddeddfu, a byddwn yn barod i ymgymryd â'r heriau hyn gyda brwdfrydedd."

**Gofyniad am gyfathrebu gan y Cynulliad**
O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae dyletswydd ar Gomisiwn y Cynulliad i hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o lywodraeth ddatganoledig yng Nghymru, a'r system ar gyfer ethol Aelodau'r Cynulliad. O ganlyniad i hyn, roedd Comisiwn y Cynulliad wedi gwneud cyfathrebu effeithiol â phobl Cymru'n flaenoriaeth ar gyfer y Trydydd Cynulliad.

Sefydlwyd swyddogaeth gyfathrebu benodedig ac, erbyn Rhagfyr 2007, roedd y Comisiwn wedi cytuno ar strategaeth gyfathrebu er mwyn:
– hysbysu a hybu dealltwriaeth ehangach o waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ei bwerau a'i statws cyfansoddiadol;
– hybu ymgysylltu a chyfranogi ym musnes y Cynulliad a democratiaeth Cymru;
– cyhoeddi cyflawniadau'r Cynulliad yng nghyd-destun Cymru a'r DU ac mewn cyd-destun rhyngwladol; a,
– datblygu a gwarchod brand y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn ystod oes y Trydydd Cynulliad, mae'r Comisiwn wedi sicrhau dealltwriaeth a chydnabyddiaeth ehangach o'r Cynulliad fel corff democrataidd modern blaengar. Mae hefyd wedi ailagor y Pierhead a chynyddu mynediad iddo, gan ddarparu llwyfan ar gyfer dadleuon a thrafodaethau cyhoeddus. Addaswyd hen siambr drafod y Cynulliad, Siambr Hywel, hefyd i greu'r siambr drafod bwrpasol gyntaf i bobl ifanc yn y byd, fel y gallai cynulleidfa darged allweddol ddysgu am fusnes y Cynulliad a'i drafod. Gall y Cynulliad ymfalchïo bellach mewn cysylltiadau rhagorol â rhanddeiliaid a phresenoldeb ar-lein sy'n effeithiol ac yn gwella'n gyflym. Mae'r Comisiwn, drwy ei ymrwymiad i ymgysylltu â'r cyhoedd, wedi sicrhau bod y Cynulliad a'i fusnes yn hygyrch i gannoedd o filoedd o bobl ac yn cael ei drafod ganddynt.

**Diffinio pwy ydym a beth rydym yn ei wneud**
Yn dilyn gwahanu'r Cynulliad oddi wrth Lywodraeth Cymru, comisiynwyd yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth i gynnal yr arolwg ymchwil gwleidyddol mwyaf erioed yng Nghymru ynghylch canfyddiadau cyhoeddus o'r Cynulliad a'i rôl. Dangosodd y canlyniadau fod dryswch o hyd ynghylch y gwahaniaeth rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Roedd gwaith wedi dechrau eisoes ar sefydlu hunaniaeth glir i'r Cynulliad, a chymeradwywyd strategaeth gan y Comisiwn i ddatblygu brand gweledol cryf ar gyfer y ddeddfwrfa. Roedd hyn yn cynnwys lle amlwg i ddelweddau o'r Senedd eiconig, arddull ysgrifennu clir a oedd yn osgoi jargon a chreu arddull gweledol cyson a hawdd ei adnabod ar gyfer cyhoeddiadau.

Ategwyd hyn drwy ddatblygu datganiad lleoli, a ddefnyddir ar bopeth o lofnodion e-bost i gyhoeddiadau, sy'n cyfleu (i gynulleidfa fewnol yn ogystal â'r un allanol) beth yw enw'r ddeddfwrfa a'i swyddogaeth gyfansoddiadol:

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.*

Gan gymryd canfyddiadau o waith ymchwil i ystyriaeth, mae'r datganiad lleoli'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru, er mwyn amlygu'r gwahaniaeth rhwng y Cynulliad a'r llywodraeth y mae'n rhaid iddo graffu arni.

**Cyfathrebu y tu allan i'r Senedd**
Mae'r Comisiwn wedi buddsoddi llawer o ymdrech mewn gwaith allgymorth, gan geisio mynd â'r Cynulliad a'i waith i froydd a chymunedau pobl Cymru. Fel rhan o brosiect dengmlwyddiant y Cynulliad, ymwelodd y Llywydd â rhanbarthau etholaethol yng Nghymru er mwyn siarad â chynrychiolwyr sectorau sydd wedi ymddieithrio yn y gorffennol, yn cynnwys cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal â phobl anabl, cymunedau ffydd a grwpiau sy'n ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol a phobl ifanc.

Agwedd bellach ar waith allgymorth y Cynulliad oedd prynu bws er mwyn cael presenoldeb symudol i'r Cynulliad fel y gellid cael mynediad i ardaloedd ledled Cymru sydd y tu hwnt i gyrraedd gwaith allgymorth traddodiadol. Roedd y bws hefyd yn cynnig modd i ni ailfeddwl ynghylch ein presenoldeb yn sioeau a digwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol Cymru gan roi pwyslais ar fynd i fwy ohonynt am yr un gost, os nad am lai.

Yn ogystal â hynny, ffurfiwyd Siambr Hywel, y siambr drafod bwrpasol gyntaf i bobl ifanc yn y byd, o'r hen siambr ddadlau yn Nhŷ Hywel, ac mae wedi croesawu mwy na 30,000 o fyfyrwyr i gymryd rhan mewn dadleuon democrataidd ers ei hagor yn Ebrill 2008.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, drwy ei gysylltiadau rhyngwladol a'i gysylltiad â chyrff seneddol proffesiynol fel Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA), Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA) a CALRE (The Conference of European Regional Legislative Assemblies), wedi cynnal ei bresenoldeb a'i ddylanwad ar y llwyfan rhyngwladol, gan anfon cynrychiolwyr i gynadleddau a seminarau yn y DU ac mewn gwledydd tramor yn ogystal â chroesawu amryw o ymwelwyr o bob cyfandir i'r Cynulliad. Rhoddwyd pwyslais neilltuol ar sicrhau gwerth am arian o'n gweithgarwch rhyngwladol, gan rannu profiadau â deddfwrfeydd eraill sydd yn ei dro yn ein galluogi i ddysgu o arferion da mewn mannau eraill a hyrwyddo ein

cyflawniadau ein hunain. Er enghraifft, yn ystod y Trydydd Cynulliad mae Cangen y Cynulliad Cenedlaethol o'r CPA wedi canolbwyntio fwyfwy ar weithio mewn modd strategol, agored ac atebol gan gyfrannu o'r gwersi a ddysgwyd o adroddiadau ar ôl cynadleddau a seminarau at waith ehangach y Cynulliad Cenedlaethol lle'r oedd modd.

Gwnaeth y Comisiwn benderfyniad strategol i ailddatblygu adeilad y Pierhead, rhan allweddol o ystad y Cynulliad ac un o adeiladau eiconig Cymru. Ar 1 Mawrth 2010, wedi misoedd o waith adnewyddu helaeth, ailagorwyd yr adeilad ar ei newydd wedd fel atyniad unigryw a rhad ac am ddim ar gyfer digwyddiadau ac ymwelwyr. Hyd yn hyn, mae mwy na 100,000 o ymwelwyr wedi croesi trothwy trothwy'r Pierhead, gan ei wneud yn un o brif atyniadau'r brifddinas.

Wrth ailagor y Pierhead dechreuwyd ar raglen flwyddyn o hyd o ddigwyddiadau i nodi deng mlynedd o ddatganoli yng Nghymru. Nod rhaglen y dengmlwyddiant oedd defnyddio'r dathliadau fel modd i ailennyn diddordeb, dealltwriaeth ac ymgysylltu hygyrch rhwng y Cynulliad a phobl Cymru.

Yn ogystal â hynny, roedd mentrau newydd, fel taith y Llywydd o gwmpas Cymru, sefydlu gwasanaeth allgymorth ac e-ddemocratiaeth newydd, a lansio'r Bws Allgymorth, yn gerrig milltir o bwys yn rhaglen y dengmlwyddiant ac yn fodd i gynyddu ac ehangu'r ymgysylltu â democratiaeth a hefyd i adael gwaddol ar gyfer cyfathrebu gan y Cynulliad yn y dyfodol.

**Dulliau cyfathrebu arloesol**
Mae Comisiwn y Cynulliad wedi hyrwyddo'r defnydd o dechnegau cyfathrebu arloesol. Mor gynnar â 2007, roedd y Cynulliad wedi cyflwyno system deisebau, lle'r oedd modd am y tro cyntaf i aelodau o'r cyhoedd ddeisebu'r Cynulliad Cenedlaethol a gofyn am gymryd camau yn y meysydd polisi hynny y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt. Lansiwyd system e-ddeisebau i'w hategu ar 15 Ebrill 2008, gan ei gwneud yn haws byth rhyngweithio â'r Cynulliad.

Wrth i sianeli cyfathrebu traddodiadol wynebu cystadleuaeth barhaus oddi wrth ddulliau technolegol arloesol ac offer cyfathrebu newydd, cytunodd y Comisiwn ar strategaeth e-ddemocratiaeth yn 2010. Ei bwriad oedd gwneud mwy o ddefnydd o amryw o sianeli digidol i hysbysu ac ymgysylltu, gyda'r bwriad o ehangu a dyfnhau'r ymgysylltu gan y Cynulliad â phobl Cymru.

Rhoddwyd y strategaeth e-ddemocratiaeth ar waith yn ymgyrch Pleidleisiwch 2011 a geisiai hybu ymwybyddiaeth o etholiad y Cynulliad yn ogystal â'r refferendwm ar bwerau'r Cynulliad yn y dyfodol a refferendwm San Steffan ar system y bleidlais amgen.

Roedd yr ymgyrch yn cynnwys neges gyfathrebu gyson wedi'i hyrwyddo gan yr holl staff allgymorth, y defnydd o fideos ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol y Cynulliad, ymgyrch hysbysebu ar-lein arloesol i dargedu rhai rhwng 18 a 35 mlwydd oed yn ogystal ag ymgyrch aml-lwyfan i gysylltu â'r cyfryngau cymunedol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Roedd yr ymweliad swyddogol cyntaf gan ddirprwyaeth ffederal o Ganada i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yng ngwanwyn 2011 yn cynnig cyfle rhagorol i rannu gwybodaeth a phrofiadau ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd. Roedd 12 o Aelodau Cynulliad wedi cymryd rhan yn yr ymweliad, a'r rheini'n cynnwys y Llywydd, y Dirprwy Lywydd a thri o'r Comisiynwyr, a chyflwynwyd rhaglen lawn o ddeg sesiwn ffurfiol a oedd yn cynnwys y gyntaf mewn cyfres arfaethedig o Sesiynau "Gwersi o Wledydd Tramor" yn y Pierhead.

Roedd yr ymweliad yn un cadarnhaol iawn ym marn y ddirprwyaeth. Cafwyd sylwadau ar nifer o achlysuron gan Dr Carolyn Bennett ACG AS, sy'n arweinydd cydnabyddedig ar ymgysylltu â dinasyddion, am waith cadarnhaol y Cynulliad ym maes ymgysylltu ac yn ystod ei chyflwyniad ar y pwnc yn y Pierhead, canmolodd y Cynulliad Cenedlaethol am ei ymrwymiad i ddemocratiaeth dryloyw gan ddatgan ei bod yn amlwg bod ymgysylltu â dinasyddion yn flaenoriaeth i'r Cynulliad ac yn rhan annatod ohono.

**Argymhellion i'r Comisiwn nesaf**

*Argymhellir y dylai Comisiwn nesaf y Cynulliad ganolbwyntio ar y materion lefel uchel canlynol mewn cysylltiad â'r nod strategol "Hybu ac ehangu'r ymgysylltu â datganoli":*

– cydweithio ag Aelodau ar weithgareddau cyfathrebu i'w galluogi a'u grymuso i weithredu fel cenhadon dros waith y Cynulliad;
– canolbwyntio ar faterion sylfaenol wrth gyfleu negeseuon ee y gwahaniaeth rhwng y Llywodraeth a'r Cynulliad sydd, er gwaethaf pob ymdrech gennym, yn dal i beri dryswch gan amharu ar brofiad y dinesydd o ddemocratiaeth Cymru;
– cyfleu negeseuon clir am waith y Cynulliad yn dilyn y bleidlais 'ie';
– dal i weithio ar strategaethau allweddol fel brandio, e-ddemocratiaeth a'r Pierhead, fel y byddwn yn cael yr holl fudd o'r gwaith cychwynnol a wnaethpwyd yn ystod y Trydydd Cynulliad.



**“Byddwn yn dangos undod ac arweiniad ac yn ymateb yn feiddgar i newidiadau cyfansoddiadol.**
“Bydd y Cynulliad yn dangos hyder a gallu wrth ddefnyddio’i bwerau newydd. Rydym yn unedig yn ein bwriad i sicrhau gwaith craffu a deddfu o’r radd flaenaf, gan gynorthwyo’r Aelodau ym mhob agwedd ar eu gwaith fel cynrychiolwyr etholedig.”

**Cynorthwyo’r ddeddfwrfa**
Cafwyd galwadau ychwanegol sylweddol am y gwasanaethau a ddarperir gan staff y Cynulliad oherwydd y swyddogaethau cyfansoddiadol a deddfwriaethol a roddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Y rhesymau dros y cynnydd yn y galwadau hyn oedd:
– bod maint y gwaith yn fwy—roedd y Cyfarfodydd Llawn yn hwy ac roedd pwyllgorau’n fwy gweithgar nag mewn Cynulliadau blaenorol; roedd cynnydd diwrthdro yn y defnydd o’r Gwasanaeth Ymchwil; tyfodd y rhaglen ddeddfwriaethol yn gyson; ac roedd datblygu cynigion deddfwriaethol ar ran Aelodau Cynulliad unigol a phwyllgorau’n creu llawer iawn o waith ymestynnol i ymchwilwyr, cyfreithwyr a chlercod ac yn arwain at oriau hwy i staff cymorth;
– bod y gwasanaethau angenrheidiol yn fwy cymhleth a soffistigedig—o ran y cymorth ymchwil y mae ar Aelodau ei angen drwy gydol y broses ddeddfwriaethol ac wrth gyflawni eu rôl craffu mewn pwyllgorau; y cyngor ar weithdrefnau y gofynnir amdano gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth a staff y Siambr; y drafftio deddfwriaethol a’r cyngor a roddir gan y Gwasanaeth Cyfreithiol; cyfieithu cyfreithiol arbenigol; a’r cyfuniad o gyngor ar bolisi a gweithdrefnau y mae pwyllgorau craffu annibynnol a phwyllgorau eraill yn galw amdano.

Amcan y Comisiwn o’r dechrau oedd sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i ymateb i’r pwysau hyn. Rhai o’r camau ymarferol a gymerodd oedd:
– cwrdd ar y cyd â’r Pwyllgor Busnes er mwyn darparu adnoddau yn ôl y galw wrth drefnu gwaith ffurfiol y Cynulliad;
– cymeradwyo cynnydd ym maint yr adnoddau sydd ar gael yn y meysydd hynny sy’n ymwneud yn bennaf â chynnal busnes y Cynulliad, sef Gwasanaethau Pwyllgorau, Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth, y Gwasanaeth Ymchwil, y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi. Cododd maint yr adnoddau i £6 miliwn yn 2008–09 o £4.6 miliwn yn 2007–08. O fewn y ffigurau hyn, cododd y gyllideb ar gyfer staffio o tua £2.4 miliwn i tua £3 miliwn. O ganlyniad i hyn, roedd y meysydd gwasanaeth hyn yn gallu ad-drefnu eu strwythurau ac ymgymryd â mwy o adnoddau angenrheidiol i ddarparu ar gyfer y cynnydd a’r newid ym mhatrwm busnes y Cynulliad;
– addasu ystafell gynadledda yn Nhŷ Hywel i’w defnyddio fel ystafell bwyllgora ychwanegol. Roedd hyn yn rhoi darpariaeth wrth gefn i sicrhau parhad busnes os nad oedd ystafelloedd ar gael yn y Senedd ac arweiniodd yn fuan hefyd at ganiatáu ailamserlennu lefel uwch o waith pwyllgora ffurfiol yn rheolaidd.

Yn ystod y Trydydd Cynulliad roedd newidiadau ym mron pob agwedd ar waith ffurfiol y Cynulliad: roedd y craffu mewn pwyllgorau a Chyfarfodydd Llawn yn fwy treiddgar ar ôl gwahanu'r ddeddfwrfa a'r weithrediaeth; sefydlwyd gweithdrefn ddeddfwriaethol helaeth am y tro cyntaf; datblygodd rhaglen ddeddfwriaethol ar wahân i un y llywodraeth ac, yn y dyddiau cynnar, roedd maint y gwaith ar ei chyfer mor sylweddol â hwnnw ar gyfer rhaglen y llywodraeth; a sefydlwyd pwyllgorau i gyflawni swyddogaethau cwbl newydd, fel y rheini a oedd yn craffu ar gyllid a deisebau gan y cyhoedd.

Ym mhob un o'r agweddau hyn, sicrhaodd y Comisiwn o'r dechrau un fod yr adnoddau a oedd ar gael yn caniatáu cyflawni'r gweithdrefnau hyn mewn modd y gellid ei ystyried yn batrwm i ddeddfwrfeydd eraill yn y DU.

**Dull newydd o drafod y broses ddeddfwriaethol**
Arloesodd y Trydydd Cynulliad yn y dull o drafod deddfwriaeth ac ymgyngoriadau cyhoeddus ar ddeddfau arfaethedig.

Ym Mehefin 2007, Jenny Randerson AC a lwyddodd yn y balot cyntaf i gyflwyno cynnig ar gyfer deddf newydd yng Nghymru, ar y ffordd orau i sicrhau bod plant yn cael mynediad at fwyd iach a maethlon yn yr ysgol. Er mwyn cyfrannu at lunio'r ddeddf arfaethedig, manteisiodd gwasanaeth addysg a gwasanaethau allgymorth y Cynulliad ar ymweliadau gan ysgolion i'r Senedd ac ar waith allgymorth i gasglu gwybodaeth oddi wrth y plant y byddai'r ddeddf arfaethedig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol. Cyflwynwyd y wybodaeth amhrisiadwy hon i'r Pwyllgor ac fe'i defnyddiwyd ganddo fel tystiolaeth wrth lunio'r ddeddf.

Ar ôl cael cytundeb y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn, cyflwynwyd y ddeddf ym Mawrth 2008. Hwn hefyd oedd y Mesur cyntaf i ddwyn Bathodyn Brenhinol Cymru, sydd bellach yn ymddangos ar holl Fesurau'r Cynulliad. Mae wedi'i seilio ar arfbeisiau tywysogion brodorol Cymru, sy'n dyddio'n ôl i'r 13 ganrif, ac fe'i dyluniwyd gan y Garter King of Arms, Peter Gwynne-Jones.

Fel rhan o ymrwymiad y Cynulliad i ddarparu gwybodaeth yn y ffordd orau bosibl a hybu amcan Comisiwn y Cynulliad o hyrwyddo ac ehangu'r ymgysylltu â datganoli, gwnaeth y Comisiwn hefyd gymeradwyo parhad yn y cyllid i Deddfwriaeth Cymru Ar-lein. Caiff ei ariannu ar y cyd gan y Comisiwn a Llywodraeth Cymru ac mae'n darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ddeddfwriaeth Cymru ac am y fframwaith cyfreithiol ar gyfer cyflawni swyddogaethau sydd wedi'u datganoli. Mae ar gael am ddim i ddefnyddwyr ac mae hefyd yn ymwneud yn benodol â deddfwriaeth Cymru.

**Deddfwriaeth a chraffu**
Dyma grynodeb o gyflawniadau'r Cynulliad o ran deddfwriaeth a chraffu dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae **15 o Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol** wedi'u gwneud gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor. **Tynnwyd un Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn ôl**. Mae **22 o Fesurau** wedi cael Cymeradwyaeth Frenhinol, yn cynnwys y Mesur cyntaf i'w gynnig gan bwyllgor (Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009) a'r Mesur cyntaf i'w gynnig gan Gomisiwn y Cynulliad (Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010).

## Cyfanswm cyfarfodydd y pwyllgorau yn y Trydydd Cynulliad

| | 2007–08 | 2008–09 | 2009–10 | 2010–11 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymunedau a Diwylliant** | 13 | 14 | 16 | 17 | 60 |
| **Menter a Dysgu** | 22 | 33 | 26 | 23 | 104 |
| **Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol** | 17 | 32 | 23 | 17 | 89 |
| **Cynaliadwyedd** | 18 | 26 | 24 | 21 | 89 |
| **Is-bwyllgor Datblygu Gwledig** | 11 | 22 | 20 | 14 | 67 |
| | **81** | **127** | **109** | **92** | **409** |
| **Pwyllgor Archwilio/ Cyfrifon Cyhoeddus** | 06 | 17 | 16 | 23 | 62 |
| **Plant a Phobl Ifanc** | 07 | 19 | 16 | 17 | 59 |
| **Cyfle Cyfartal** | 11 | 16 | 16 | 15 | 58 |
| **Materion Ewropeaidd ac Allanol** | 06 | 13 | 15 | 16 | 50 |
| **Cyllid** | 14 | 19 | 23 | 22 | 78 |
| **Deisebau** | 11 | 19 | 15 | 16 | 61 |
| **Craffu ar Waith y Prif Weinidog** | | | 02 | 02 | 04 |
| **Safonau Ymddygiad** | 03 | 06 | 02 | 04 | 15 |
| | **58** | **109** | **105** | **102** | **387** |
| **Pwyllgorau Deddfwriaeth** | 50 | 96 | 102 | 79 | 327 |
| **Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth /Materion Cyfansoddiadol** | 19 | 33 | 30 | 29 | 111 |
| | 69 | 129 | 132 | 108 | 438 |
| **Cyfanswm** | **208** | **365** | **346** | **302** | **1234** |
| **Mae'n cynnwys 28 o gyfarfodydd allanol** | 03 | 14 | 07 | 04 | 28 |

Wrth gyflawni eu swyddogaethau deddfu, craffu a chynrychioli, rhaid i Aelodau'r Cynulliad gael mynediad at wybodaeth ffeithiol sy'n cael ei dal gan Lywodraeth Cymru. Mae gan y Gwasanaeth Ymchwil ran allweddol i'w chwarae wrth ddarparu gwybodaeth awdurdodol, amserol, gyfredol o ansawdd uchel i Aelodau, gan ategu pwrpas strategol y Cynulliad wrth wneud hynny gan nad oes modd iddo weithredu heb lif priodol o wybodaeth. Cafwyd cydnabyddiaeth i hyn gan y Panel Adolygu Annibynnol yn 2009 ac yn adroddiad y Bwrdd Taliadau yn 2011 a argymhellodd fod angen i Aelodau Cynulliad unigol gael gwell mynediad at swyddogion Llywodraeth Cymru a'r wybodaeth y maent yn ei dal, drwy'r Gwasanaeth Ymchwil.

Yn 2007 sefydlwyd set o drefniadau gan Lywodraeth Cymru fel bod rhaid i bob cais am wybodaeth a wneir gan y Gwasanaeth Ymchwil ar ran Aelodau gael ei gyfeirio, mewn llythyr, drwy Swyddfeydd Preifat y Gweinidogion. Mae staff y Gwasanaeth Ymchwil wedi'u gwahardd rhag dod i gysylltiad uniongyrchol â swyddogion Llywodraeth Cymru ac felly mae'r mynediad sydd ganddynt yn fwy cyfyngedig nag yn achos staff eraill yng Nghomisiwn y Cynulliad neu gymheiriaid yn y gwasanaethau ymchwil cyfatebol yn y Senedd a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Argymhelliad y Bwrdd Taliadau oedd y dylai'r Comisiwn drafod â Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi trefniadau ar waith sy'n cyfateb i'r rheini mewn sefydliadau seneddol eraill yn y DU, sef gwasanaeth wedi'i seilio ar yr egwyddorion bod rhaid rhoi blaenoriaeth i hawl Aelodau unigol a phwyllgorau i weld gwybodaeth ffeithiol sy'n cael ei dal gan Lywodraeth Cymru ac y dylai staff y Gwasanaeth Ymchwil allu cyfathrebu'n uniongyrchol â'r swyddogion polisi perthnasol yn Llywodraeth Cymru.

**Argymhellion i'r Comisiwn nesaf**

Argymhellir y dylai Comisiwn nesaf y Cynulliad ganolbwyntio ar y materion lefel uchel canlynol mewn cysylltiad â'r nod strategol "Dangos undod, ac arweiniad ac ymateb yn feiddgar i newidiadau cyfansoddiadol".

Yn gynnar yn nhymor y Pedwerydd Cynulliad:

- sicrhau bod adnoddau ar gael i fodloni anghenion y Cynulliad yn y dyfodol yn dilyn y bleidlais 'ie' a phenderfyniadau'r Pwyllgor; Busnes/Cynulliad mewn cysylltiad â threfnu busnes y Cyfarfodydd Llawn a'r pwyllgorau;
- cydgysylltu â'r Bwrdd Taliadau i sicrhau bod penderfyniadau'r Comisiwn a'r Bwrdd yn ategu ei gilydd lle bynnag y bo modd;
- trafod â Llywodraeth Cymru i sicrhau blaenoriaeth i hawl Aelodau unigol a phwyllgorau i weld gwybodaeth ffeithiol sy'n cael ei dal gan Lywodraeth Cymru.

## “Byddwn yn dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da ym mhob agwedd ar ein gwaith.

“Rhaid i ni ofalu bod modd i bobl graffu’n fanwl ar bob agwedd ar ein gwaith, rhaid i’n holl waith fod yn dryloyw a rhaid iddo adlewyrchu natur amrywiol Cymru a’i hieithoedd a’r modd yr ydym yn delio â’i phobl ac yn eu cynnwys yn ein gwaith.”

Wrth gynllunio ar gyfer sefydlu Comisiwn cyntaf y Cynulliad, rhoddodd y Comisiwn Cysgodol le canolog i lywodraethu corfforaethol trwyadl yng ngweithrediadau’r corff seneddol newydd. Sefydlwyd Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i gynghori’r Comisiwn a’r Prif Weithredwr ar faterion sy’n ymwneud â chyllid, protocolau archwilio a llywodraethu corfforaethol. Ategwyd y galluoedd cryf a oedd ar gael yn fewnol drwy benodi cynghorwyr annibynnol i helpu’r Comisiwn i gyflawni ei ddyletswyddau.

Caiff adnoddau ariannol a blaenoriaethau’r Comisiwn eu cymeradwyo yn ystod tymor yr hydref drwy bleidlais mewn Cyfarfod Llawn. Mae’r broses wedi’i disgrifio yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad ac mae’n golygu gosod cyllideb ddrafft gan y Comisiwn y bydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad yn craffu arni. Caiff canfyddiadau’r Pwyllgor ar y cynigion cyllideb eu hystyried a’u cymeradwyo gan y Cynulliad mewn dadl. Yn ogystal â hynny, yn ystod y Trydydd Cynulliad mae’r Comisiwn wedi gofyn am gyllidebau atodol fel mecanwaith i addasu’r gyllideb a gymeradwywyd. Wrth wneud hynny, rhaid i’r Comisiwn egluro’r sail resymegol i’r gwariant ychwanegol arfaethedig i’r Pwyllgor Cyllid.

Mae’r Comisiwn wedi paratoi strategaeth gyllideb ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad gyda’r amcan o leihau cyllideb y Comisiwn yn unol â chanran y gostyngiadau yng nghyllideb bloc Cymru.

Mae’r broses graffu drwyadl hon yn helpu i wneud cynlluniau gwariant y Comisiwn yn fwy atebol a thryloyw.

Ymrwymiad pellach i wneud y Cynulliad yn sefydliad gwirioneddol dryloyw ac atebol oedd y dull prydlon ac agored o ymateb i geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Cafodd y Cynulliad 205 o geisiadau yn ystod y Trydydd Cynulliad gyda chynnydd neilltuol o sydyn yn nifer y ceisiadau a gafwyd yn 2011. Roedd testunau’r ceisiadau’n amrywio’n fawr ac fe’u hanfonwyd gan aelodau o’r cyhoedd, grwpiau buddiant a’r cyfryngau.

Mae natur y ceisiadau wedi amrywio o esboniadau syml am waith y Cynulliad a darparu copïau o ddogfennau hyd at ddadansoddiadau mwy manwl. Roedd nifer sylweddol o’r ceisiadau a gafwyd (64) yn ymwneud ag Aelodau Cynulliad ac yn cynnwys eu tâl a phensiynau, eu lwfansau a threuliau, a chostau eu staff cymorth. Bellach mae llawer o wybodaeth ynghylch lwfansau a threuliau Aelodau’r Cynulliad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad ac mae hyn wedi ein helpu i ddarparu’r wybodaeth hon i’r cyhoedd a rhanddeiliaid mewn modd agored a thryloyw.

| Blwyddyn | Cyfanswm y ceisiadau | Nifer y ceisiadau'n ymwneud ag Aelodau |
|---|---|---|
| 2007 | 24 | 07 |
| 2008 | 45 | 25 |
| 2009 | 52 | 12 |
| 2010 | 54 | 15 |
| 2011 (hyd Ebrill) | 30 | 05 |

Mae'r tabl ar y tudalen gyferbyn yn dangos nifer y ceisiadau a gafwyd a'r nifer ohonynt sy'n ymwneud yn benodol ag Aelodau Cynulliad rhwng 2007 a 2011.

Roedd ceisiadau eraill a broseswyd yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â chostau a oedd wedi'u dwyn gan y Cynulliad ar gyfer meysydd gwariant penodol fel ymgysylltu â'r cyhoedd, hyfforddiant a datblygiad, defnydd o'r Gymraeg a pholisïau ar ei chyfer, trefniadaeth a strwythur y Cynulliad, cwynion ynghylch Aelodau, gwaith y Comisiynydd Safonau a chynaliadwyedd.

Ym mis Mai 2008, flwyddyn gron cyn i'r Daily Telegraph gyhoeddi manylion treuliau ASau, rhoddodd y Comisiwn ei gymeradwyaeth i sefydlu panel annibynnol i adolygu tâl Aelodau Cynulliad. Dros gyfnod o ddeg mis, cynhaliwyd adolygiad llawn gan banel, o dan gadeiryddiaeth Syr Roger Jones, o dâl Aelodau Cynulliad a'u lwfansau ar gyfer teithio, llety, a chyllid ar gyfer swyddfeydd etholaeth a rhanbarth a staff cymorth. Cyhoeddwyd ei adroddiad, Yn Gywir i Gymru, ym mis Gorffennaf 2009, a hwn oedd yr adolygiad cyntaf o'i fath i gael ei gyhoeddi yn y DU. Derbyniodd Aelodau'r Cynulliad yr holl argymhellion a oedd yn yr adolygiad.

Yn y cyfamser, lansiwyd cofnod ar-lein cyhoeddus o hawliadau am dreuliau gan Aelodau'r Cynulliad ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol, fel y gallai pawb weld, drwy glicio llygoden, pa dreuliau yr oedd eu Haelodau Cynulliad wedi'u hawlio. Cyhoeddir hawliadau'n fisol, dri mis wedi i dreuliau fynd yn ddyledus.

Er mwyn gweithredu ar y canfyddiadau, a chymryd cam arwyddocaol pellach i sicrhau bod mecanweithiau trwyadl ac annibynnol i benderfynu sut y telir Aelodau Cynulliad a pha faint, cynigiodd y Comisiwn ei Fesur cyntaf erioed i sefydlu Bwrdd Taliadau annibynnol. Cyflwynwyd adroddiad y Bwrdd, a oedd â chyfrifoldeb dros bennu tâl a lwfansau Aelodau Cynulliad, ym Mawrth 2011. Y Penderfyniad, a gafodd ei lansio gyda'r adroddiad, Addas i'r Diben, wedi'i fwriadu i roi'r offer angenrheidiol i Aelodau a'u helpu i gyflawni eu swyddogaethau craidd wrth graffu ar waith Llywodraeth Cymru, deddfu a chynrychioli eu hetholwyr, yn adlewyrchu'r cyd-destun ariannol yng Nghymru o ran cyllidebau tynn y sector cyhoeddus a lefelau cyflog cyfartalog ledled Cymru. Cynigiai system gynaliadwy a chosteffeithiol o gymorth ariannol i Aelodau Cynulliad ac roedd wedi'i seilio ar dair egwyddor ganolog i sicrhau bod y system cymorth ariannol i Aelodau yn un:

– nad yw'n atal ar sail ariannol bersonau sydd â'r ymroddiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol yn Aelodau o'r Cynulliad;
– sy'n darparu adnoddau digonol i Aelodau Cynulliad i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau fel Aelodau o'r Cynulliad; a,
– sy'n sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn modd sy'n rhoi uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder.

Yn 2011, lluniodd y Comisiwn ei Ddatganiad Cydraddoldeb cyntaf, sy'n cynnwys gwerthoedd a gweledigaeth y Comisiwn ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb, a chyhoeddodd Gynllun Cydraddoldeb. Yn dilyn ymgynghori eang â rhanddeiliaid ac ymchwil i'r trefniadau sy'n dangos yr arferion gorau mewn cyrff eraill, pennwyd amcanion cydraddoldeb yn y Cynllun ar gyfer tymor y Trydydd Cynulliad ac mae adroddiadau blynyddol wedi'u cyhoeddi bob blwyddyn i gofnodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud. Mae'r amcanion wedi canolbwyntio ar gynyddu mynediad i'r Cynulliad a'i wasanaethau, ymgysylltu'n fwy eang, a dod yn batrwm o gyflogwr a darparwr gwasanaethau. Craffodd Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad ar yr adroddiad bob blwyddyn a monitro cynnydd ar ei weithredu.

Gweithiodd Comisiwn y Cynulliad mewn partneriaeth ag Operation Black Vote yn 2007 i redeg y Cynllun Cysgodi Aelodau Cynulliad cyntaf yng Nghymru ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Yn dilyn llwyddiant y cynllun hwnnw, yn 2009–10 gweithodd y Comisiwn mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu a rhedeg Camu Ymlaen Cymru, cynllun mentora a chysgodi rolau i bobl a deimlai eu bod wedi'u tangynrychioli ym mywyd gwleidyddol a sifil Cymru.

**Corff gwirioneddol ddwyieithog**
Yn 2009, sefydlodd y Comisiwn banel adolygu annibynnol i edrych ar ei ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog. O dan gadeiryddiaeth Arwel Ellis Owen, gwnaeth nifer o argymhellion, gan gynnwys datblygu fersiwn haws ei defnyddio o Gofnod y Trafodion, y trawsgrifiad gair am air o ddadleuon yn Siambr y Cynulliad.

Cynigiodd y Comisiwn hefyd y dylai gyflwyno Mesur newydd a fydd yn rhoi'r Cynulliad o dan ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau lle canolog i ddwyieithrwydd yn ei ddarpariaeth o wasanaethau. Bydd y broses yn dechrau drwy gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddechrau tymor y Pedwerydd Cynulliad.

**Argymhellion i'r Comisiwn nesaf**
Argymhellir y dylai Comisiwn nesaf y Cynulliad ganolbwyntio ar y materion lefel uchel canlynol mewn cysylltiad â'r nod strategol "Dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da":

– ystyried yn ofalus y cydbwysedd priodol rhwng darbodion a chyflenwi gwasanaethau, er mwyn osgoi amharu ar wasanaethau hanfodol i Aelodau a gwastraffu egni ac adnoddau ar amddiffyn penderfyniadau y mae Aelodau'n eu cael yn annerbyniol.
– sicrhau nad yw cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dioddef yn ystod cyfnod economaidd caled.
– symud ymlaen â threfniadau newydd i gyflenwi gwasanaethau dwyieithog ar sail gadarnach, yn cynnwys Cynllun Ieithoedd Swyddogol.
– cynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio yn ei waith o gynnal safonau llywodraethu uchel ym mhob rhan o'r corff, gan gynnwys meysydd caffael a rheoli contractau.

### "Byddwn yn gweithio'n gynaliadwy.

"Byddwn yn dangos arweiniad yn y ffordd yr ydym yn rheoli ein gwaith a'n hystâd a'n nod yw sicrhau ein bod yn gwneud hynny yn y ffordd fwyaf cynaliadwy bosibl."

O'r dechrau, mae'r Comisiwn wedi cydnabod yr angen i'r Cynulliad fod yn arweinydd o ran ei uchelgais i weithio'n gynaliadwy ac mae wedi gosod polisïau ar gynaliadwyedd sy'n gadarn ond yn ymarferol. Drwy bolisi amgylcheddol y Comisiwn, mae'r Cynulliad yn dal i leihau ei effaith ar yr amgylchedd drwy ddefnyddio llai o adnoddau anadnewyddadwy, lleihau gwastraff, ailgylchu, atal llygredd a chydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth amgylcheddol ac i fod yn batrwm o ran ei berfformiad amgylcheddol. Mae'r Senedd wedi'i galw'n feincnod oherwydd ei hadeiladwaith cynaliadwy a'i dull o weithredu.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae Comisiwn y Cynulliad wedi bod yn gyfrifol am nifer o gyflawniadau nodedig o ran gweithredu cynaliadwy. Mae'r rhain yn amrywio o wella ôl troed carbon ein hystad i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio i leihau effeithiau anffafriol ar yr amgylchedd.

- Mae'r Cynulliad wedi cael ei ailardystio ar Lefel 5 yn Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ar gyfer y cyfan o'r ystad ym Mae Caerdydd.
- Yn 2009–10, sicrhawyd gostyngiad o 8 y cant mewn allyriadau ynni yn unol â'r targedau a ddisgrifiwyd yn y Cynllun Rheoli Carbon. Mae ein costau ynni wedi aros yn sefydlog hefyd o ganlyniad i hyn, er bod prisiau wedi codi.
- Ym Mawrth 2009, cyrhaeddodd y Cynulliad Lefel 4–'Corff sy'n Gwella' yn Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy Gwerth Cymru.
- Mae'r Comisiwn wedi cytuno ar raglen o welliannau er mwyn cynaliadwyedd ein hadeiladau dros y pedair blynedd nesaf a rhoddir ystyriaeth i'r effaith ar yr amgylchedd wrth gyflawni pob math o waith cynnal a chadw rheolaidd.
- Mae sgorau'r Dystysgrif Arddangos Ynni ar gyfer pob un o'r tri adeilad yn ystad y Cynulliad wedi gwella.
- Ym Mai 2009, cyflwynwyd cynllun aberthu cyflog ar gyfer beicio i'r gwaith er mwyn hyrwyddo cymudo cynaliadwy. Mae cyfanswm o 16 o ddefnyddwyr adeiladau wedi ymuno.
- Yn 2009–10, sefydlwyd cynllun casglu compost masnachol a chompostiwyd mwy na saith tunnell o wastraff bwyd y Cynulliad ar gyfer prosiectau adennill lleol.
- O ganlyniad i welliannau mewn cofnodi corfforaethol cafwyd dull agored o drafod allyriannau cwmpas 1, 2 a 3 am y tro cyntaf yn 2009–10.
- O ganlyniad i gyflwyno cronfa geir allyriadau isel ar gyfer teithiau busnes, arbedwyd £2,500 o gostau a chafwyd gostyngiad o 0.5 tunnell mewn allyriadau $CO_2$ dros 10 mis.

**Argymhellion i'r Comisiwn nesaf**
Argymhellir y dylai Comisiwn nesaf y Cynulliad ganolbwyntio ar y materion lefel uchel canlynol mewn cysylltiad â'r nod strategol "Gweithio'n Gynaliadwy":

– cydnabod ac adeiladu ar sail arweiniad y Comisiwn wrth sicrhau gweithio cynaliadwy ar gyfer y Cynulliad wrth benderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad;
– pennu ffyrdd i gynnal momentwm pan allai'r hinsawdd economaidd ei gwneud yn fwy anodd buddsoddi'n uniongyrchol mewn cynaliadwyedd;
– gwneud ein cyflawniadau yng nghyd-destun polisïau amgylcheddol a'n dymuniad i gynnal y momentwm yn rhan allweddol o'n cyfathrebu a'n haddysg ar gyfer defnyddwyr ystad y Cynulliad, ymwelwyr a Chymru'n gyffredinol;
– fel rhan o'r dull hwn o weithredu, pennu blaenoriaeth polisïau cynaliadwyedd yn ofalus er mwyn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir heb effeithio'n amhriodol ar Aelodau ac eraill sy'n defnyddio ystad y Cynulliad.

**“Byddwn yn gofalu bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, a gaiff ei ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol.**
“Byddwn yn codi safon y gwasanaethau a ddarperir i’r Aelodau a phobl Cymru, gan ddangos ein bod yn defnyddio’n hadnoddau’n ddoeth ac yn effeithiol ac yn rhoi gwerth am arian. Gwasanaethu, yng nghyswllt yr Aelodau a phawb sy’n ymwneud â’r Cynulliad, yw’r ethos sydd wrth wraidd popeth a wnawn.”

**Sicrhau’r defnydd gorau o dechnoleg**
Yn dilyn ymgynghoriad helaeth ag Aelodau, staff a rhanddeiliaid eraill ynghylch sut y gall ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu orau i ymgysylltu’n well â phobl Cymru, cwblhaodd y Comisiwn brosiect sylweddol i greu rhwydwaith technoleg gwybodaeth unedig ar gyfer Aelodau a staff y Cynulliad.

Byddai hyn yn sicrhau, o’r diwedd, fod seilwaith TG a oedd ar wahân i un Llywodraeth Cymru, a gynigiai fuddion yn y tymor hwy o ran costeffeithiolrwydd, rheoli gwybodaeth, ymgysylltu â’r cyhoedd, caffael TG a gwella parhad busnes. Cyflawnwyd hyn drwy ailgyfeirio £1 filiwn o gyllidebau gwasanaethau a phrosiectau i sicrhau bod y prosiect wedi’i gwblhau ym mlwyddyn ariannol 2010–11 heb fod angen cyllid ychwanegol.

**Manteisio i’r eithaf ar ein staff**
Gan gydnabod bod llwyddiant yn dibynnu ar bobl, un o benderfyniadau cyntaf y Comisiwn oedd mabwysiadu Strategaeth Pobl a oedd yn nodi pum uchelgais ar gyfer cynnwys a datblygu staff:
– cael y sgiliau iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn;
– datblygu pobl i sicrhau’r cyfraniad mwyaf posibl ganddynt;
– cydnabod llwyddiant staff a’u gwobrwyo am eu cyfraniad;
– gweld gwerth mewn amrywiaeth a lles;
– cael arweinwyr gwych a rheolwyr gwych.

Cafodd y Comisiwn ei achredu’n Fuddsoddwr mewn Pobl yn Ebrill 2009 a chadarnhawyd ei ddull o gynnwys a datblygu staff drwy ei asesu’n Fuddsoddwr mewn Pobl Safon Aur yn ystod 2010, un o ddim ond tri chorff yng Nghymru. Mae buddsoddi mewn dysgu a datblygiad yn bwysig dros ben i’r Comisiwn, a gwariwyd £1.2 miliwn ar hyn yn ystod tymor y Trydydd Cynulliad.

**Cyd-destun ariannol sy'n newid**
Mae rheolaeth ariannol gadarn yn rhan ganolog o lywodraethu corfforaethol da. Fodd bynnag, daeth ei phwysigrwydd yn fwy amlwg byth wrth i'r hinsawdd ariannol newid yn ystod oes y Cynulliad diwethaf.

Wedi iddo bennu lefel briodol o adnoddau ariannol ar ddechrau'r Trydydd Cynulliad, mabwysiadwyd strategaeth gan y Comisiwn o geisio cysoni newidiadau yn y gyllideb flynyddol â newidiadau yn y cyllid a oedd yn dod i Gymru drwy 'grant bloc Cymru' o San Steffan.

Er na ellid amharu ar alluoedd busnes craidd y Cynulliad, mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau lle bynnag y bo modd. Ymhlith y camau a gymerwyd eisoes mae cynllun diswyddo gwirfoddol i staff ynghyd â rheoli mwy pendant ar swyddi sy'n dod yn wag gyda'r disgwyliad y bydd swyddi o'r fath yn wag am dri mis o leiaf. Rhoddwyd strategaethau ar waith i wella cynhyrchiant staff drwy ostwng lefelau absenoldeb oherwydd salwch ym mhob rhan o'r Cynulliad, dibynnu i lai o raddau ar oramser, a chynyddu hyblygrwydd staff er mwyn dygymod â gweithlu llai, gan gadw cyfleoedd i staff ehangu eu profiad a'u gallu i ymgymryd â gwaith ysgogol.

**Rhaglen gwella a chofnodi perfformiad**
Cyflwynodd y Comisiwn Raglen Newid yn 2009, gan gydnabod bod cyfle i gydgysylltu, datblygu a rheoli prosiectau'n well fel y gellid cael gwelliannau mewn busnes a chyfrannu at gyrraedd nodau strategol y Comisiwn. Canolbwyntiwyd mewn rhannau o'r rhaglen hon ar wella sgiliau rheoli prosiectau, gan feithrin y gallu i bennu buddion busnes yn well ac wedyn mesur cyflawniad.

# Gwasanaethu Aelodau'r Cynulliad

**Arolwg o fodlonrwydd Aelodau'r Cynulliad**
Yn 2008, cytunodd Comisiwn y Cynulliad i gynnal arolwg er mwyn cael gwybodaeth am lefel bodlonrwydd Aelodau ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan y Cynulliad. Cynhaliwyd tri chylch, a phob un yn targedu 20 o Aelodau, hyd at Ebrill 2009 a chwblhawyd cyfanswm o 31 o gyfweliadau. Cymeradwywyd y dull o weithredu a'r cwestiynau gan Chris Franks AC, y Comisiynydd Cynulliad a oedd â chyfrifoldeb penodol dros wella'r gwasanaethau a ddarperir i Aelodau.

Yn ogystal â chynhyrchu dangosyddion lefel uchel o fodlonrwydd â meysydd gwasanaeth allweddol, roedd yr arolwg wedi'i fwriadu i roi cyfle i Aelodau roi adborth uniongyrchol am eu profiad o'r gwasanaethau a ddarperir a chynnig awgrymiadau penodol i wella gwasanaethau. Cynhaliwyd cyfweliadau gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr gydag uwch reolwr yn bresennol ar bob achlysur. Roedd y canlyniadau'n galluogi uwch reolwyr i bennu ffurf y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Roedd cwestiynau'r arolwg yn ymwneud â phedwar prif faes:
– Y Cyfarfod Llawn;
– pwyllgorau;
– gwasanaethau eraill (fel ymchwil, TGCh, talu lwfansau); a,
– cymorth a roddir i ategu rôl yr Aelod wrth graffu, gwneud deddfwriaeth a chynorthwyo etholwyr.

Roedd y sgorau cyffredinol yn y pedwar prif faes yn gadarnhaol, yn amrywio o 7.7 (gwasanaethau eraill) i 8.2 (y Cyfarfod Llawn) o gyfanswm posibl o 10.

Roedd canlyniadau'r arolwg a'r sylwadau a roddwyd yn galluogi staff y Comisiwn i gymryd camau penodol yn syth ar rai o'r pwyntiau a godwyd gan Aelodau. Yn ogystal â darparu gwybodaeth feincnodi ar gyfer arolygon o fodlonrwydd yn y dyfodol, roeddem hefyd yn gallu canolbwyntio ar ddull lefel uwch o wella bodlonrwydd â chysylltedd TGCh, o swyddfeydd etholaeth a dyfeisiau symudol yn benodol, drwy brosiect a sicrhaodd y buddion busnes a ragwelwyd yn 2010.

**Dod â'r Trydydd Cynulliad i ben**
Daeth Deddf 2006 â newid yn y ffordd y tynnodd y Cynulliad i'w derfyn oherwydd, yn hytrach nag aros yn eu swydd tan yr etholiad, byddai Aelodau Cynulliad yn peidio â bod yn Aelodau tua phum wythnos ymlaen llaw, gan fod y Cynulliad yn cael ei ddiddymu bryd hynny.

Roedd sicrhau diddymiad llwyddiannus yn galw am ymgynghori trwyadl ag Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth. Un her fawr oedd sicrhau na fyddai etholwyr o dan anfantais oherwydd y diddymiad, gan ofalu yr un pryd fod darpar Aelodau a'r Aelodau presennol yn cael chwarae teg. Roedd hon yn broses anodd, a bydd gwersi i'r Comisiwn newydd yn deillio o'r prosiect ac yn ystod yr wythnosau cyn ac ar ôl yr etholiad.

**Argymhellion i'r Comisiwn nesaf**
Argymhellir y dylai Comisiwn nesaf y Cynulliad ganolbwyntio ar y materion lefel uchel canlynol mewn cysylltiad â'r nod strategol "Gofalu bod gan y Cynulliad y gwasanaeth gorau, wedi'i ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol":

- ymgysylltu'n agos ag Aelodau a'u staff cymorth ynghylch y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen ac ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn;
- adolygu contract Merlin (mae gwaith yn mynd ymlaen ar hyn) a'r buddion a gaiff eu gwireddu a'r agweddau ar brosiect UNO sy'n ymwneud â gwerth am arian;
- cynnal y trefniadau llywodraethu mwyaf cadarn er mwyn peidio ag amharu ar ein gallu i gadw ein henw da am gyflawni ein gwaith.